

ECO'R WYDDFA

Rhif 210

Mawrth 1995

Pris 25c.

Y Wagen o Chwarel Cwm Brwynog gan Ken Jones, Llanberis

Roeddwn wedi sylwi ers rhai blynyddoedd ar hen wagen rwbel llechi yn gorwedd ar ei hochr ger un o domenydd hen chwarel Cwm Brwynog, neu Chwarel Nant Ddu fel y'i gelwir gan rai. Ychydig iawn o hanes sydd i'r chwarel, a'r gred yw iddi gael ei gweithio am rhyw ddwy i bedair blynedd yn ystod pedwardegau y ganrif ddiwethaf. Os felly, roedd yn debygol fod y wagen yn dyddio o'r dyddiau cynnar rheini, ac roedd yn amlwg i mi o'r cychwyn ei bod yn hen iawn. Credwn fod eitha hanes iddi.

Chwarel ar ddwy lefel yw Chwarel Cwm Brwynog, a saif tua 1,300 o droedfeddi ar lethrau tyner y cwm, ychydig is na phont rheilffordd yr Wyddfa wrth iddi nesu at hanner ffordd. Mae yno hen gytaiau a chysgodfannau, ac olion llafur trwm mewn llecyn ble nad oes unrhyw gysgod naturiol rhag y tywydd garw. Un o ryfeddodau a dirgelwch y chwarel yw'r ffaith nad oes olion unrhyw ffordd nac inclein yn arwain o'r gwaith, a bod yno filoedd o lechi wedi eu hollti a'u naddu a'u gosod yn rhesi trefnus. Bellach, mae'r rhan fwyaf o'r llechi wedi eu gorchuddio â thros gan mlynedd a hanner o dyfiant, ond mae canran dda ohonynt mewn cyflwr rhyfeddol.



Y wagen sbwriel llechi wedi iddi gael ei chloddio o'r ddaear yn Chwarel Cwm Brwynog.

Plannu 'mlaen

Roedd y 25ain o Ionawr yn ddiwrnod i'r brenin; ac yn ddiwrnod o waith i drideg o blant Ysgol Waunfawr. Roedd hi'n ddiwrnod hefyd i Antur Waunfawr ddiolch am waith y plant yn plannu coed yn y Parc Natur. Pwy feddyliai y byddai hogia'r Antur yn sefydlu gwarchodfa natur ar eu tir, ond dyna fu . . .

Cae cyffredin, fel cant a mil o gaeau eraill, oedd y Parc dair blynedd yn ôl. Ond, fe wnaed tri twll yno ac erbyn hyn mae pob pwll gyda llyffantod a phedwar math o was-y-neidr yn byw yn y dŵr. Cafodd ambell greyr glas ei weld hefyd yn pysgota am damaid yno.

Diolch i'r creyr, sydd yn cario pob math o hadau o bwl i bwl yn yr ardal, fe ymddangosodd — fel petai o unlle — drwch o hesg melfed (bulrushes) yn y dŵr. Caiff rhain eu torri yn eu tro i wneud addurniadau i'w gwerthu yn siop yr Antur.

Ond beth am y plant? Mae nhw wedi mynd a'r Parc Natur

gam ymhellach drwy blannu dau gant o goed yno — derw, ysgaw, crafal, bedw, a 'fala surion bach. Bydd rhain yn helpu bywyd gwyllt y Parc. Diolch, 'rhen blant!

A phan fydd rhai coed, fel yr ysgaw, yn ffrwytho ymhen ychydig flynyddoedd — pan fydd 'rhen blant yn bobol ifainc — bydd yr Antur efallai yn casglu eu cynnyrch i wneud jam neu jytnei, neu hyd yn oed gwin!

Dewch draw i brynu o Siop yr Antur ac yna chymryd tro bach o gwmpas llwybrau'r Parc wedyn. Bydd croeso gwresog i chi.

DUNCAN BROWN



Mae'n siŵr fod y wynebau yn y llun yma yn gyfarwydd i genedlaethau o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Beth oedd yr achlysur ddaeth a nhw'n ôl at ei gilydd — trowch i dudalen 3 am yr hanes.

Credaf mai'r bwriad oedd gollwng y llechi i lawr y llethrau i waelod y dyffryn ar rhyw fath o inclein, ac yna eu cludo i Lanberis gyda char a cheffyl ar hyd y ffordd a godwyd yn bwrpasol i galon y cwm islaw.

Profodd y gorchwyl o symud y wagen i Lanberis yn sialens o'r mwyaf. Roedd y wagen mewn cyflwr rhyfeddol o dda, er bod un

Newbury, sy'n berchennog 33 o wagenni o'r fath. Roedd wedi rhyfeddu at gyflwr y wagen, ac o'r farn ei bod gyda'r hynaf iddo ei gweld. Awgrymodd yn gryf fod ymdrechion yn cael eu gwneud i'w symud i Lanberis. Yn ôl Mr Stapleton, mae olwynion y wagen o batrwm anghffredin, yn enwedig o safbwynt y breichiau (spokes). Haeam gyrr yw corff y wagen, a hwnnw mewn cyflwr da iawn, heb ei dolcio na'i blygu; ac mae'r gwaith coed yn eithriadol o drwchus, ac yn anhebyg i'r hyn a welwyd mewn chwareli eraill yng ngogledd Cymru. Mae cyflwr corff y wagen yn awgrymu na chafodd ond cyfnod byr o waith.

Symudwyd y wagen dros gyfnod o ddau ddiwrnod gan aelodau o Fforwm Plas Tanybwllch, cyfeillion mawr bellach, sydd wedi bod yn archwilio olion tyllau magnelau yn y fro yn ystod y llynedd. Penderfynwyd cychwyn ar y gwaith cludo ar ddydd Sadwrn, 8fed Hydred, a bu prysurdeb mawr yn paratoi am y diwrnod drwy gludo offer arbennig o Flaenau Ffestiniog i Gwm Brwynog. Cafwyd caniatâd parod Mr Dafydd Morris i glirio'r llecyn o gwmpas y wagen, ac i fynd a dod ar draws ei dir. Rydym yn ddiolchgar hefyd am holl gymorth a chydweithrediad rheolwr a staff Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa.

(Parhad ar dudalen 18)



Duncan Brown a phlant Ysgol Waunfawr ar fin cychwyn plannu'r coed yn y Parc Natur.

ECO'R WYDDFA

Rhif 210
MAWRTH 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 30
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAWRTH 20
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
EBRILL	MAWRTH 30	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 27	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MEHEFIN 1	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Helpu Meanscoil Feirste

Annwyl Ddarllenwyr,

Fel y gwyr rhai ohonoch eisoes mae cronfa wedi ei hagor er mwyn casglu arian i helpu 'Meanscoil Feirste', sef yr unig Ysgol Uwchradd Wyddelig yn Belfast. Pam agor cronfa meddech chi? Y rheswm syml yw nad yw'r Awdurdod Addysg yno yn cydnabod bodolaeth yr ysgol — ac felly nad yw'n cydnabod yr angen am addysg uwch mewn Gwyddeleg. Ydych chi yn cofio'r sefyllfa oedd yn bodoli yng Nghymru ugain mlynedd yn ôl? Ydych chi'n cofio'r dadlau a'r brwydro fu'r amser hwnnw? Sawl un ohonom erbyn hyn sydd yn cymryd addysg yn ein hiaith ein hunain yn ganiataol a naturiol? Dyna hoffai pobl Belfast ei weld. Pam fod yr Awdurdod yn gwrthod hyn iddynt? Pam y dylai pobl gael eu gorfodi i fynd o ddrws i ddrws yn cardota — a hynny er mwyn sicrhau addysg gyflawn i'w plant? Fedr rhieni ddim aros am ddwy neu dair blynedd arall tra bo'r Awdurdod Addysg yn penderfynu dyfodol eu plant. Dyna pam yr ydym yng Nghymru am weld dyfodol i'r ysgol yma ac ar yr un pryd yn dweud wrth y llywodraeth na chânt chwarae o gwmpas efo addysg plant — boed hynny yn lwerddon neu yng Nghymru.

Dyma eich cyfle i sicrhau dyfodol i'r ysgol, a bod yn rhan o'r ymgyrch hon, a thrwy hynny gyfrannu'n ariannol i'r gronfa, boed fel cymdeithas, mudiad, grŵp, Undeb Athrawon neu fyfyrwyr — neu fel unigolyn sydd eisoes wedi bod drwy'r storm addysg, neu fod eich plentyn ar hyn o bryd yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Fedrwn ni ddim sefyll yn ôl a gweld plant Belfast yn cael eu hamddifadu o rhywbeth yr ydym ni yn ei gymryd mor ganiatol. Yr wyf wedi dweud droeon fy hunan nad ein lle ni yw talu am addysg plant — mae'r syniad mor anfoesol ac mor wrthun — ond wir i chi — does gan y rhieni a'r athrawon yn Meanscoil Feirste ddim dewis. Mae eu hymroddiad yn ddiddiwedd a'r gobaith yw y cawn ninnau fod yn rhan o'u breuddwyd.

Diolch am ddarllen hyn o lith ac am fod mor barod i gefnogi. Wele isod fanylion pellach am y gronfa:
Enw a Rhif Cangen: Banc y Midland Y Bala, 40.09.01

Enw'r Cyfri: Meanscoil Feirste

Rhif y Cyfri: 01107038

Rhifau ffôn: (01678) 520658 neu (01970) 624501.

Yn gywir,

GWYN SIÔN IFAN

Y Byd ar Bedwar

At y Golygydd,

Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at raglen 'Y Byd ar Bedwar' a ddarledwyd ar S4C nos Lun, 23 Ionawr.

Pwysleisïaf ar y cychwyn fy mod o'r farn fod cyfresi 'Y Byd ar Bedwar' wedi bod yn rhai arbennig o dda, ac wedi ennill gwobrau haeddiannol am safon eu newyddiaduriaeth.

Nos Lun diwethaf, chwarelwyr llechi a glowyr yn dioddef oddi wrth lwch ar yr ysgyfaint a'r anghyfiawnder mewn perthynas â thalu iawndal i ddioddefwyr o'r fath oedd testun y rhaglen. Cyemrwyd rhan yn y rhaglen gan ffrindiau agos i mi o Ddeiniolen, un ohonynt yn ŵr sydd wedi brwydro'n galed i geisio sicrhau iawndal i lawer iawn o ddioddefwyr yn y fro hon.

Fwy nag unwaith cyfeiriodd y rhaglen at y ffaith fod yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol yn anfodlon trafod 'achosion unigol' gyda'r rhaglen.

Rhaglen ardderchog unwaith eto, felly. OND, erys un peth yn ddirgelwch i mi — sut y gellid rhoi rhaglen o'i bath gyda'i gilydd heb hyd yn oed grybwyll enw Mr Dafydd Wigley, AS.

Mae cymaint o bobl ag 'achosion unigol' yn Neiniolen a'r cylch wedi dweud wrthyf am eu dyled i Mr Wigley am gefnogi eu cais am iawndal. Pe bai'n rhaid cysylltu enw Dafydd Wigley ag unrhyw ddwy frwydr bersonol y mae ef wedi cymryd rhan ynddynt yn San Steffan y brwydrau i sicrhau iawndal i chwarelwyr a hawliau i'r anabl fyddai'r rheini. Ac yn ystod y misoedd diwethaf pwysodd ar y Swyddfa Gymreig i gomisiynu ymchwil wyddonol ym maes llwch ar yr ysgyfaint.

Hwyrach fod gan olygydd 'Y Byd

ar Bedwar' resymau penodol dros beidio cyfeirio at, na chyfweld, Mr Wigley. Ond roedd peidio gwneud hynny, yn fy marn i, yn gwneud y rhaglen yn un anghyfbwys ac anghyflawn.

Yn gywir iawn,

GWYN PARRI
Cynefin, Deiniolen.

Gwared â'r Quangos

Annwyl Ddarllenwyr,

Yng Nghaerdydd ar 22 Ebrill 1995 bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal Rali Fawr i wrthwynebu trefn Quangos y Toriaid ac i amlinellu ein gweledigaeth ni o'r hyn y dymunwn ei weld yn cymryd eu lle.

Dyma fydd y cyfle cyntaf i'r cyhoedd yng Nghymru i fynegi eu gwrthwynebiad i drefn y Quangos. Yr ydym yn sicr y bydd Caerdydd yn gweld miloedd o bobl yn y Brifddinas ar y diwrnod hwnnw.

Apeliwn ar i bawb sydd wedi cael llond bol ar y system anghyfiawn bresennol i ddod i Gaerdydd ar fysiau a drefnir gan y Gymdeithas, gan gychwyn o Langefni am 7 y bore gan godi teithwyr mewn mannau eraill ar y ffordd.

Am fanylion pellach cysylltwch â Swyddfa'r Gogledd ar (01248) 371732.

Yn gywir,

ARWYN TOMOS
(Cadeirydd Rhanbarth Gwynedd)

BWYTY GLANTRAETH

Bodorgan, Ynys Môn

Mae bwydlen ddiddorol am bris rhesymol yma, mewn awyrgylch gartrefol, gydag adloniant Cymraeg bob nos Sadwrn.

ADLONIAINT

Mis Mawrth:

- 1: Noson Lawen Gŵyl Ddewi
- 4: Cywair
- 11: John ac Alun (llawn)
- 18: Clwb Ffermwyr Ifainc Rhosybol
- 25: Bryn o'r Bryn
- 26: Cinio Sul y Mamau

Mis Ebrill:

- 1: Alawon Menai
- 8: Glyn Borth-y-gest ac Iwan Parry
- 15: Hogia'r Mynydd
- 22: Côr Dyffryn Nantlle

Ffôn: (01407) 840401
neu (01407) 840250

ADUNIAD YSGOL BRYNREFAIL 1962



Ar y 3ydd o Chwefror yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, daeth llawer iawn o gyn-ddisgyblion a ddechreuodd eu haddysg yn Ysgol Brynrefail yn 1962 ynghyd i hel atgofion ac i ail-greu hen gyfeillgarwch. Braf iawn oedd cael cyfarfod rhai o'r athrawon a oedd

wedi ein dysgu, a derbyn llythyrau gan rai nad oedd yn medru bod yn ein mysg yn dymuno'n dda i ni ar y noson. Roedd rhai ohonom yn adnabod ein gilydd yn iawn ond roedd yn noson fythgofiadwy o gael cyfarfod ar ôl yr holl flynyddoedd. Roedd yn anffodus bod dipyn go-

lew ohonom yn byw ac yn gweithio dramor ac yn methu â bod yn ein cwmni. Penderfynwyd felly ail-gyfarfod ymhen amser gan obeithio y byddai yn rhwyddach i'r cyfeillion hynny fod yn ein mysg.

Casglwyd £268 ar y noson a throsglwyddwyd yr arian i Mr John Grisdale, prifathro Ysgol Brynrefail, tuag at gronfa'r ysgol gan Eirug Wyn.

ar hyd a lled Cymru dros y misoedd nesaf. Mae'r gystadleuaeth yn agored i unigolion neu grwpiau o hyd at saith aelod, ar gyfer perfformiad rhwng tair a hanner a phedair munud o hyd.

Os hoffech chi gystadlu am le ar y rhaglen, cysylltwch ar unwaith â 'Tip Top', Llawr 4, BBC Cymru, Llandâf, Caerdydd CF5 2YQ, Ffôn: (01222) 572952, gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad, rhif ffôn a manylion am eich perfformiad.

Crwydro'r Alban

Annwyl Olygydd,

Yn ystod yr haf eleni byddwn yn ffilmio ar gyfer pedair rhaglen deledu lle bydd Lyn Ebenezer yn crwydro drwy'r Alban. Rydym yn chwilio am siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn y rhaglenni. Os gŵyr eich darllenwyr am rywun sy'n byw yn unrhyw ran o'r Alban, yn siarad Cymraeg, ac yn gwneud rhywbeth allai fod o ddiddordeb i'n gwylwyr, byddaf yn ddiolchgar iawn os gallant gysylltu â mi drwy ysgrifennu at Teledu Seiont, Gronant, Caernarfon, Gwynedd LL55 1NS, neu drwy ffonio (01286) 677595 (Ffacs: 01286 678831).

Yn gywir,

IOAN ROBERTS
Teledu Seiont

Sêr y Sgrîn?

Annwyl Ddarllenwyr,

Oes gennych chi anifail anwes, un anarferol efallai? Perchennog perffaith i'ch anifail? Wedi mopio eich pen efo nhw? Ydi'r bwji acw'n siarad neu'r ci yn dawnsio, neu falle yn ennill ym mhob sioe.

Rhowch wybod i ni os ydych chi yn gwybod am rywun neu rywbeth sy'n debyg i'r disgrifiadau uchod drwy gysylltu efo HTV ar (01222) 590173 a 'falle y byddwch chi a Swmt yn Sêr y Sgrîn.

Yn gywir,

MERERID JENKINS

Galw Diddanwyr Cymru

Annwyl Ddarllenwyr,

Wedi llwyddiant y gyfres gyntaf o 'Tip Top' mae Ray Gravel yn chwilio am fwy o ddoniau newydd ar gyfer ail gyfres fydd i'w gweld ar S4C yn ystod yr haf.

Tybed ydych chi'n medru canu, actio, dawnsio, dweud jôcs neu chwarae offeryn cerdd? Beth bynnag yw eich talent, os ydych chi'n mwynhau cystadlu, ac yn awyddus i ennill tlws 'Tip Top', ynghyd â gwobr ariannol, cysylltwch â'r rhaglen ar frys.

Bydd BBC Cymru yn cynnal gwrandawladau mewn canolfannau

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

AUSCHWITZ

Eto, ni ddont i'r giatiau — i'w tricio
O'r tryciau, heb amau.
Hiliaeth oedd eu heualau
Cri o fawl yn eu cryfhau.
RLJ

Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda

Annwyl Olygydd,

Yn ystod Ebrill eleni bydd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, yn dathlu ei chanmlwyddiant. Dyma achlysur arbennig iawn i'r ysgol; bydd yn gyfle i gyn-ddisgyblion a'n disgyblion presennol i ddiolch am yr addysg a gawsant mewn ysgol sydd â chysylltiad agos â'i bro, a bydd hefyd yn gyfle i ail-gyfarfod â chyfeillion o'r gorffennol mewn cyfres o ddigwyddiadau ac achlysuron eraill.

Gwn bod llawer o'n cy-ddisgyblion, ynghyd â chyfeillion eraill, wedi symud o gylch Dyffryn Ogwen, ond eu bod hefyd yn dymuno parhau a'u cysylltiad â'r ysgol. Os oes unrhyw un o ddarllenwyr yr 'Eco' â diddordeb mewn cael tocyn ar gyfer swper y dathlu neu angen unrhyw wybodaeth pellach buaswn yn ddiolchgar pe byddent yn cysylltu â'r Prifathro, Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN.

Yn gywir,

Dr DAFYDD ROBERTS
(Cadeirydd y Corff Llywodraethol)

(Mae manylion am weithgareddau'r dathlu i'w gweld yn y blwch isod.)

DATHLU CANMLWYDDIANT YSGOL DYFFRYN OGWEN

1895 — 1995

EBRILL 24 — EBRILL 30, 1995

Gwasanaeth arbennig yn Neuadd yr Ysgol yng ngofal Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr.

Perfformiad o 'Teilwng yw'r Oen'.

Cyfarfod cyflwyno gwobrau 1993/1994 a chyflwyno rhoddion dathlu.

Cyfarwyddwr Addysg a gwahoddedion yr Ysgol

SWPER DATHLU

A NOSON O HEL ATGOFION GAN
GYN-DDISGYBLION

yn Neuadd P.J., Coleg y Brifysgol, Bangor

Nos Wener, Ebrill 28ain, 1995 am 7.30 o'r gloch
Bwffe sylweddol ac adloniant Tocyn: £6.50

Tocynnau ar gael o Swyddfa'r Ysgol (nifer cyfyngedig)

SADWRN

Diwrnod agored — Arddangosfeydd
Cystadleuaeth Golff (St. Deiniol)

BORE SUL

Gwasanaeth Undebol

NOS SUL

Cymanfa Ganu

CHWILOTA NUNLLE ARALL?



Prin fod inc y rhifyn diwethaf o'r 'Eco' wedi sychu nad oedd rhai ohonoch yn galw i ddadlau mai ym Mwllch y Groes yr oedd 'Nunlle' ac nid ar Foel Cynghorion.

Mr Owen Jones, Garth, Ceunant, oedd y cyntaf i alw, yn bendant ei farn mai twmpath o gerrig mewn tir gwyllt ar ochr y ffordd ym Mwllch y Groes oedd 'Nunlle'. Aeth ati i nodi'n fanwl sut i gael hyd i 'Nunlle'. Dilyn y lôn o'r Waunfawr i fyny am Fwllch y Groes, ac wedi mynd heibio i'r tomennydd llechi ar y chwith, a chyn cyrraedd y giât ym Mwllch y Groes, mae olion hen gytiau saethu Bryn Bras ar y dde. 'Mae 'Nunlle', medd Mr Jones, union gyferbyn â'r hen olion hyn. Cytuno wnâi Mrs Jones-Evans o 3 Hafan Elan, Llanrug, a fagwyd ym Mhen Gwaith yn agos i Fwllch y Groes. Dywedodd fod pedair carreg fawr wedi eu gosod yn y ddaear ar gongl Parc Pen Gwaith, pob un yn nodi terfyn pedwar plwyf. Mae hi'n nodi mai'r tir rhwng y pedair carreg hon yw 'Nunlle', gan nad oedd yn rhan o unrhyw blwyf. Mae cof plentyn ganddi am ewythr iddi o Lanerchymedd yn dod i ymweld â'r teulu bob blwyddyn, ac un o'r pethau cyntaf a fyddai eisiau ei wneud bod tro oedd mynd i sefyll i 'Nunlle'. Gallai wedyn fynd yn ôl i Fôn yn honni iddo fod yn 'Nunlle' ar ei wyliau!

Mae'n ymddangos felly fod dau 'Nunlle' o fewn y fro — os nad oes darllenwr yn gwybod am fwy!

Gan fod Mr Owen Jones yn sôn am olion cytiau saethu Bryn Bras, tybed a oes rhywrai yn cofio'r rhain yn cael eu defnyddio? Gwn fod hawliau saethu ar y Cefn Du yn perthun un ai i Glynllifon neu i Fryn Bras, ac mai saethu grugieir oedd y gamp. (Gyda llaw, mae grugieir wedi mynd yn bethau prin ryfeddol ar y Cefn Du bellach, ac anaml iawn y byddaf yn 'codi' un o'r adar hyn wrth grwydro'r llethrau.)

Chwi gofiwch i mi sôn am ddadl ynglŷn â hawliau tir ar Foel Cynghorion. Cadarnhawyd hyn gan Ken Jones, Blaen Ddôl, Llanberis, sy'n adrodd fod achos llys wedi bod ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf rhwng ffermydd Helfa fain a Helfa fawr, Waun Cwm Brwynog, ynglŷn â hawliau pori ar lethrau Moel Cynghorion, ond na fu datrys boddhaol i'r ddadl.

'Jên ni sy'n un iawn'

Rai misoedd yn ôl cafwyd cais gan Mr Glyn Owen, Glan Gors, Ceunant, am eiriau'r hen faled. Doedd neb o'r darllenwyr wedi cysylltu, felly aeth Mr Owen ati ei hun i chwilo, ac mae bellach wedi dod o hyd i'r gân mewn rhifyn o'r *Herald Cymraeg*, ddiwedd Rhagfyr 1930. I golofn Carneddog yr anfonwyd y gân, a hynny gan Ellis Williams, Bodfean, Llŷn, sy'n adrodd fod y gân wedi bod yn un hynod boblogaidd mewn cyngherddau a nosweithiau llawen yn y gorffennol. Yr awdur oedd Ap Morus, ac fe'i cyfansoddwyd yn 1892. Anfonwyd copi o'r gân i Ellis Williams gan yr awdur wedi ddyddio Ebrill 3ydd, 1892. Does dim mwy o wybodaeth gennyf am Ap Morus. Mae'r gân yn

llawn ar y dudalen gyferbyn, a diolch i Mr Owen am ei hail-ddarganfod. Gyda llaw gellir ei chanu ar yr alaw 'Mae Robin yn Swil'.

Diwygiad Dafydd Morgan 1859

Anfonodd Mrs Evans, Llys Gwynt, Penisarwaun (Glyn Arthur gynt), fân nodiadau a phenillion o hanes y diwygiad crefyddol uchod. Ceir mwy o'r hanes yn llyfr William Hopley ar Hanes Methodistiaeth Arfon. Yno, adroddir i'r diwygiad daro'r ardaloedd hyn yn ystod misoedd Awst a Medi 1859 pryd yr ymgyrchai cannoed o chwarelwyr a'u teuluoedd hyd lethrau'r Elidir i gynnal cyfarfodydd gweddi. Honnir fod rhwng tair a phedair mil o bobl wedi ymgynnull ar yr Elidir ar ddydd Iau, Medi 1af o'r flwyddyn honno, a bod 'Cymanfa Weddio' wedi ei threfnu. Beth tybed oedd Cymanfa Weddio.

Mae'n sicr i'r diwygiad hwn gael cryn effaith yn y bröydd hyn, oherwydd gwelir cynnydd sylweddol yn nifer aelodau'r gwahanol gapeli yn 1860, a sefydlu nifer o eglwysi o'r newydd: Hebron (1859), Clegir (1860), Disgwylfa (1860), Fachwen (1862) a Cysegr (1864).

Pam y galwyd ef yn Ddiwygiad Dafydd Morgan? Saer coed oedd Dafydd Morgan o ardal Ysbyty Ystwyth, Ceredigion. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid yn 1842 ac ordeiniwyd ef yn weinidog yn 1857. Daeth i gysylltiad â Humphrey Jones a oedd newydd ddychwelyd o'r America, ble roedd diwygiad crefyddol wedi lledu drwy'r wlad. Dechreuodd y ddau efengylwyr deithiau pregethu, ond torrodd iechyd Humphrey Jones, a Dafydd Morgan a

gynhaliodd y gwaith. Teithiodd ledled Cymru yn ystod 1859-60, gan gynnal tair neu bedair oedfa bob diwrnod.

Cyfarfod yr Annibynwyr 1886

Gan Mrs Evans hefyd y daeth adroddiad am Gyfarfod Ysgol Undeb Ysgolion Sabbothol yr Annibynwyr, Dosbarth Bethel, Arfon, a gynhaliwyd ym mis Medi 1886. Roedd hwn yn wahanol i'r cyfarfodydd arferol oherwydd fod 'meysydd llafur gwobruwyedig' wedi eu trefnu. Nid yw'n eglur oddi wrth yr adroddiad ai dyma'r tro cyntaf i wobrau ariannol gael eu cynnig am ddysgu'r meysydd llafur, ond mae rhestr yr enillwyr yn dangos fod cryn dipyn o arian wedi ei rannu rhwng yr ymgeiswyr yn y cyfarfod. Yn y dosbarth i ddynion dros 25 oed roedd gwobrau o 12 swll ac 8 swllt am ateb saith o 'ofyniadau' ar Demtiad Crist. Y gorau, gyda chanmoliaeth uchel oedd William J. Hughes (Deiniolfryn), Ebenezer. Roedd hyd yn oed y buddugwyr o dan 8 oed yn ennill gwobrau o swllt a chwecheiniog. Rhannwyd 29 o wobrau ariannol i gyd. Tybed beth fyddai gwerth y gwobrau rheiny heddiw, ac a oes gwobrau cyfatebol yn cael eu cynnig gan y gwahanol enwadau heddiw?

Mae Mrs Evans yn holi mwy am Deiniolfryn. Mae'r ychydig wybodaeth sydd gen i amdano yn nodi iddo gael ei godi'n flaenor yng Nghapel Ebenezer yn 1886, ac mai ef oedd yn gyfrifol am sgwennu hanes yr achos ar achlysur dathlu canmlwyddiant y capel yn Awst 1923. Mae'r llyfr yn fy meddiant: *Canmlwyddiant Eglwys Gynulleidfaol Ebenezer, Llanddeinolen*, ac mae llun o Deiniolfryn o'i fewn. Byddai'n ddiddorol cael mwy o'i hanes.

Teulu Owen Williams, Bwlch, Cwm-y-glo a California

Mae'n ymddangos fod aelodau o deulu Owen Williams yn parhau i fyw yng Nghwm-y-glo, ond na wyddent ddim oll am y cysylltiad â Chalifornia! Mae angen peth gwaith ymchwil eto cyn cadarnhau'r ffeithiau. Gobeithio

y daw my o'r hanes i sylw yn y rhifynnau nesaf o'r 'Eco'.

Elias Ellis, Cefnywaun ac Utica a Robert Parry, Llanrug

Yn rhifyn Medi o'r 'Eco' adroddwyd hanes Elias Ellis o Ebenezer yn ymfudo i'r America. Mae Mrs Olwen Llywelyn, a roddodd yr hanes gwreiddiol i mi, wedi darganfod cyfeiriad ychwanegol am y cymeriad hwn; a'r hyn sy'n od yw fod cysylltiad â'r fro yn yr hanesyn hwnnw hefyd. Yn rhifyn Gŵyl Ddewi o'r cyfnodolyn *Y Genninen* (1909), mae ysgrif goffa i'r Parchg Robert Parry, gweinidog Capel Mawr, Llanrug. Awdur yr ysgrif oedd Alafon, a oedd yn weinidog yn yr Ysgoldy. Gyda'r rhifyn hwn o'r *Genninen* roedd amryw doriadau papur newydd yn rhoi hanes angladd Robert Parry ym mis Ionawr 1909. Yn eu plith roedd adroddiad yn sôn amdano yn Utica, talaith Efrog Newydd. Bu yno'n 'gwasanaethu eglwys Moreia am bedwar mis'. Yn anffodus, nid yw'n nodi'r dyddiadau y bu yno'n weinidog, ond ceir yn yr adroddiad hanes ei gyfarfod ffarwelio, a'i anrhegu â 'ffon hardd a gwawlen sidan' yn ogystal â 'drafft am £10' a gyflwynwyd iddo gan Elias Ellis; yr un Elias a ymfudodd o Ebenezer yn 1886.

Gwybodaeth arall a ddaeth i'r amlwg ymhlith y toriadau papur newydd oedd y ffaith i'r Parchg Robert Parry gyfieithu nifer o emynau o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'u cyhoeddi mewn llyfryn o'r enw *Hymns of the Welsh Revival*. Mewn adroddiad arall gwelir y cyhoeddiad yn *Emynau'r Diwygiad*. Doedd gen i 'run syniad am fodolaeth y llyfryn hwn nes i mi gael yr hanes gan Mrs Llywelyn. Oes rhywrai o'r darllenwyr â mwy o wybodaeth am gyn-weinidog Llanrug?

Gwybodaeth ychwanegol am destunau'r mis hwn? Pytiau diddorol am hanes y fro? Unrhyw ymholiad am gymeriadau neu ddigwyddiadau o'r gorffennol — pell neu agos? Anfonwch neu ffoniwch: Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o

Welyau a '3P/Suites'.

Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc — allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7pm

9-5pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

“Jên ni sy'n un iawn”

Mae Mari, Bryn Llawes yn lodes pur ddel,
Ond Lari ydi Mari, mae hi fel a'r fel;
Mae'n debyg i glomen, ei hunan yn lân,
Ond wfft am ei chartref a'r silff uwchben tân.

Byrdwn:

Fawr tebyg i Jên, fawr tebyg i Jên,
Jên ni sy'n un iawn, Jên ni sy'n un iawn.

A Jane o Lwyn Eleth sy'n eneth bur gall,
Wybodus ryfeddol, a hynod ddi-wall;
Am starchio a smwddio mae hefyd yn gamp,
Ond dyna sy'n felltith, mae'n arw am dramp.

A Jane bach y Foryd, ni chyfyd o'i gwâl,
Ond cwyno a chwyno, a byth braidd yn sâl;
Trwy'i hun bydd yn gweiddi tua chanol yr haf
'Ffynhonnau Llandrindod, O mae 'no le braf!'

Miss Jones o'r hen Dalar sy'n glyfar dros ben
Am chwarae piano a droio ar len;
Fe ddywed rhai, medr hi siarad tair iaith
Mae'n hoff iawn o lyfrau, ond nid hoff o waith.

A merch Alsi Tomos, mae hon yn werth pres,
Â'i chyfoeth, mae'n denu y llanciau yn rhes;
Mae'n dresio mor binco, ond dyna sy'n bla —
I beth, meddech chi, mae'r duanas yn dda?

Miss Williams y Cottage, O! dyma un od,
Yn gogrwyn o gwmpas hefo'i gown plod;
Ac mae hi yn siarad mor wastad a neis,
Fel pe bai hi'n profi dim byd ond 'mince pies'.

A Kate, merch y Groeslon, un ddifyr yw hon,
Ac, O! uwchben crempog mae'n edrych yn llon;
Mor fodes, mae'n galw ar ei 'Ma' a'i 'Phapa'
Yn ddigon a gwneud dyn pren braidd yn gla'.

A merch Pen y Bryniau, mae hon mor ddi-lun
Ni fedr hi wnethur un peth braidd ei hun;
Rhyw bryd yn ddiweddar, mae hyn yn reit siwr
Hi stwnsiodd y tatws cyn tywallt y dŵr!

Ond waeth heb na siarad, does run mor ddi-wall
Â Jên yn ein bröydd, na chwarter mor gall;
Hi weithia yn ddiwyd o fore hyd 'nawn
A'i thymor yn wastad, O! mae hi yn un iawn.

GRADD ALLANOL Prifysgol Cymru

Y cynllun delfrydol ar gyfer y sawl sydd am ddilyn
cyrsiau prifysgol yn ystod ei oriau hamdden.

Cynigir cyrsiau sy'n arwain at radd BA yn y pynciau a ganlyn:
**ADDYSG: CYMRAEG: HANES CYMRU:
THEATR, FFILM A THELEDU**

At hyn gellir astudio cyrsiau unigol mewn pynciau megis:
**GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL
CELFYDDYD WELEDOL YNG NGHYMRU
LLYDAWEG (Cwrs Tystysgrif i ddysgwyr)
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
CERDDORIAETH
MENTER A BUSNES
DEFNYDDIO'R GYMRAEG (Cwrs gloywi ar gyfer
dysgwyr profiadol, ac eraill)**

Anfonwch heddiw am restr lawn o'r cyrsiau a
gynigir, a manylion pellach.

A Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol,
Coleg Prifysgol Cymru, Yr Hen Goleg, Stryd
y Brenin, Aberystwyth, Dyfed, SY23 2AX.
Ffôn: 0970-622049 / 50



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed. Ffôn: 650556

Adref o'r Ysbyty: Croeso adref i Mrs Margaret Jones, Graianfryn, ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn ysbyty Llandudno.

Oherwydd anhwylder iechyd gorfu i Mrs Parry, Clydfan, a Mrs Parry, Rhos Eilian, dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, ond rydym yn fac'h fod y ddwy wedi cael dychwelyd adref erbyn hyn. Dymunwn ben-blwydd hapus i Mrs Parry, Rhos Eilian, yn 91 oed ar Fawrth y cyntaf. Anfonwn ein cofion ar Mrs Rhian Jones sydd yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac sydd am gyfnod yng Nghricieth yn cryfhau a gwella. Brysia adra, Rhian.

Croeso i Cadan a Gwen, efeilliaid bach Elin a Rhisiart, Morawel, adref o'r ysbyty. Croeso hefyd i Rebecca, merch fach Deborah a Dilwyn, Dôl Erddi, wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Diolch: Dymuna Mrs Janet Smith, Rhos-lan, ddiolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau am y blodau a'r cardiau a dderbyniodd tra bu yn Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd. Diolch i feddygon a gweinyddesau'r Ward am eu gofal a'u caredigrwydd tra bu yno.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs W. Evans, Lleifior, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i Mrs Humphrey Roberts, Rhos-goch, ar farwolaeth ei mham, sef Mrs Nesfield, Bryn Argoed.

Llongyfarchiadau

Dathlu Pen-blwydd: Dymuniadau gorau i Karen Bound, Bryn Difyr, ac i Anwen Rhys Jones, Llwyn Afon ar ddathlu cyrraedd eu 18 oed yn ystod mis Chwefror. Llongyfarchiadau a phob bendith ichi i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs L. Pritchard, 9 Bro Waun, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i Mrs Enid Williams, Heli, ar ddod yn nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Magi, i'w mhab lorwerth a'i wraig Jane, yn Ynysoedd y Caymen. Dymunwn daith dda ichi i'r Ynysoedd i weld eich wyres fach ar ddiwedd y mis.

Ganwyd efeilliaid, Wil a Morgan, i Joanne a'i phriod Jonathan. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Peter Marston, Blaen y Nant, ar ddod yn daid a nain i'r ddaufach.

Llongyfarchiadau i David a Talina

ar enedigaeth mab bychan, Christian Ashley, ac i Mr a Mrs William Colesw, Bro Waun, ar ddod yn daid a nain ac i Mrs B. Coles, Bryn Rhian, ar ddod yn hen nain.

Diolch: Dymunwn ddiolch i swyddogion Capel Croesywaun am fod mor barod i adael inni gael defnyddio'r festri ar gyfer plygu rhifyn mis diwethaf o'r Eco ac i'r criw a ddaeth i blygu. Oherwydd y ffliw methodd rhai o'r ffyddloniaid â dod a gobeithiwn eich bod yn well erbyn hyn.

Ymdeoliad: Dymuniadau gorau i Mrs Catherine Jones, Crud yr Awel, ar ei hymddeoliad o'i swydd fel prifathrawes Ysgol Pendar; ac fe'i llongyfarchwn ar iddi gael ei derbyn i'r Orsedd fel 'Catherine Pendar'.

Yr Urdd: Paratoi ar gyfer Eisteddfodau yr Urdd fu'r gweithgareddau y tymor yma. Dymunwn yn dda iddynt. Bydd Eisteddfod Cylch dan 15 oed yn cael ei chynnal yn Ysgol Syr Hugh Owen ar nos Wener, 3 Mawrth, a bydd yr Eisteddfod i rai dan 12 oed yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Llanrug, ddydd Sadwrn, 4 Mawrth.

Dymuniadau da: Dymunwn yn dda i Pearl Williams a Carys Jones pan fydd y ddwy yn cynrychioli Gwynedd ym mhencampwriaeth Bowlio Mat Byr yn Llanellwedd ar 5 Mawrth.

Enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr — £40: Mr E. W. Hughes, 15 Tref Elian; £25: Mrs H. Bradshaw, Castle View; £10: Mr M. Elfryn, Coed Gwydryn.

Y Gymdeithas Lenyddol: Nos Lun, 20 Chwefror, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Cledwyn Williams, Llanrug, a fu'n sgwrsio am 'Cyd-ddigwyddiadau' a gymerodd le yn ystod ei wahanol alwedigaethau.

Llywydd y noson oedd Mr O. T. Jones, a diolchwyd i Mr Williams gan Mrs Margaret Owen.

Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 20fed o Fawrth a'r gŵr gwadd fydd Mr Maldwyn Thomas.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

O SIAMBAR SELWYN

Mi fydda' i wrth fy modd yn derbyn llythyrau oddi wrth blant bob amser. Mae plant bob tro mor naturiol ac mor onest rhywsut.

Unwaith erioed y gwnes i gynnig fy llaw ar wneud llun ar y bwrdd du pan oeddwn yn athro ysgol. Wedi bod yn sôn wrth y plant am wrhydry 'Gelert' roeddwn i, ac am y diwedd trychinebus a ddaeth i ran yr hen gi ffyddlon. I geisio dod a 'chydig o 'liw gweledol' i'r wers mi fûm i'n ddigon ffôl i roi cynnig ar wneud llun 'arwr Beddgelert' ar y bwrdd du. Druan ohona' i. Mi glywa' i lais main Robert Wyn y munud 'ma a'i eiriau'n crafu, 'Dew ceffyl rhyfadd ydi hwnna, Syr'. Ydi, mae plant yn onest, yn greulon o onest weithiau.

Ddechrau'r mis 'ma mi ges i lythyr diddorol oddi wrth Sarah Louise Owen a Carwyn. 'Sgwennu roedd y ddau ar ran disgyblion dosbarth 6 Ysgol y Santes Helen, Caernarfon. Estyn gwahoddiad cynnes i mi ymweld â'r ysgol roeddwn nhw, i sôn am gerdd a luniais i bron i chwarter canrif yn ôl, sef 'Y Dref' — testun y bryddest yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd 1973. A'r dref a'm symbylodd i oedd hen dref Caernarfon.

Roedd y plant wedi bod yn trafod y gerdd ac yn naturiol wedi sylweddoli bod 'na dipyn o newid wedi digwydd yn yr hen dre' dros y chwarter canrif. Wrth gwrs, doedden nhw ddim yn gwybod am nifer o'r hen adeiladau y sonnir amdanynt yn y gerdd. Hen adeiladau a fu'n rhan o batrwm hanesyddol a diwylliannol tre'r cofis.

Mi ges innau fy sbreiddio hefyd o ail-ddarllen y bryddest a sylwi fod cymaint o newid wedi bod.

O ydi, mae'r Castell yno o hyd, yn gofeb oesol i rym gwancus y Sais a'i ysfa i goncro, a bu stormydd saith canrif wrthi'n ddygn yn sgwrio marciau hanes oddi ar wyneb ei feini.

Mae'r 'Anglesey' sy'n swatio

ying nhesail y Castell ar ei newydd wedd bellach. Ddaw Moms na Wil Napoleon a'i 'wymad Vikin' ddim yno mwyach i batro am oscars. Do, mi gafodd Wil ei g'nebrwng ffilm-star.

Mae Porth-yr-aur (fy ffugenw yn 'Steddfod '73) yr un mor gadarn ag erioed, ond dydi Cwch Dafydd 'Rabar ddim yn llithro i'r heli heddiw i rwydo heidiau o benwaig cochion, a fyddai neb yn pledu'r 'jermans' hefo nhw heddiw 'chwaith.

Dydy'r cloc-cwcw o siop a fu'n swatio yng nhesail y Bont Bridd ddim yno chwaith. Y siop lyfrau ryfeddol honno lle deuai'r dewin o Groesor yn ei dro i ddryllio'r delwau, a'r Prifardd William Morris a Wil Cymro yn 'gwthio'r cwch i'r dŵr' rhwng y sugnwr Wdbeins a'r smociwr dail carn yr ebol. Minnau'n gwrando ar y seiadau dadluol rhwng y parwydydd llyfrau. Gwrando a dysgu. Dyddiau difyr.

Mae yna gornel ar y Maes o hyd ond nid cornel Astons ydi hi. Y gornel honno lle buom yn croeshoelio reffaris a ffwtbol yn grefydd bob awr ginio.

Disflannodd y ffowntan. Dydi'r olwynion geiriau ddim yn tisian fel melin bupur yn y selerydd swnllyd lle bu'r *Herald* yn gwingo yn ei wely.

Ond, mae O ar y maes o hyd â'i ddwrn o garreg yn bygwith y dorf ddihiديو. Roedd hwn yn 'nabod' nhad, ac roedd 'nhad yn 'i' nabod ynta'.

Do, bu yma bafiliwn. Mae gen i gof plentyn o weld Gwilym R yn cael ei goroni yma, a Gwyndaf yn cael ei gadeirio. Dw i'n cofio eistedd yma ar lin Mam yn y Cyfarfod Croeso hwnnw a'r clapio fel clecian perthi'n llosgi pan ryddhawyd y tri o Wormood Scrubs.

Llithrodd carnifal nos Sadwrn o'r Maes a fydd neb yn cael blas ar 'Nos Sadwrn Bach' ar nos Fercher bellach. Gwisgodd Wyn sawl crys coch dros Gymru ar ôl iddo gael ei gardiau gan Llanbêr.

Timau o Loegr sy'n ymweld â'r Oval heddiw. Cyrhaeddodd Bill Parry 'mo Awstralia ac aeth ei freuddwyd yn froc ar draeth Belan.

Pwy sy'n cofio Eifionydd — y gŵr a wisgodd y genhinen yn ei galon? Glywsoch chi am Anthropos — marwnad o ddyn a'i arabedd mor finio â thwca rhewynt Chwefror ar Allt-y-Castell?

Roedd Sarah a Carwyn a phlant Ysgol y Santes Helen yn llygaid eu lle drwy ddweud, 'Fe sylweddolwn ni fod 'na lawer o newidiadau wedi digwydd dros y blynnyddoedd'.

Digon gwir 'rhen blant . . . â llawer o'r newidiadau hynny yn ystod y chwarter canrif ddiwetha 'ma hefyd. Na, dydi'r hen dre' ddim fel y bu hi.

Ond, mi fydda' i yn mynd yn

ôl ar adain dychymyg i'r gorffennol pell, pell, pell weithiau, ac yn cyd-freuddwydio gyda Macsen Wledig:

*Hapused y breuddwyd
dan gysgod y tarianau
—cyn siom y deffro.*

*A gwelaf drwy'r gwawen
gaer yn aber afon
a'i phorth yn agored,
y brifgaer decaf a wlsai dyn erioed.*

Na, 'rhen blant, dydi'r hen dre' ddim fel y buodd hi chwarter canrif yn ôl.

Y CYNNAR GODWR

Mae Arwel y Prifathro
Mewn helynt eto'n glir,
'Dyw Cantona'r pêl-droediwr
Yn ddim ar hwn, yn wir!

Chwi gofiwch ei helyntion
Pan aeth nos Sul i Llyn
A rhoddi peint o 'mixture'
Yn nhanc ei gar ei hun.

Yr ail o Chwefror ydoedd
Pan aeth, yn fôr o dân,
I roi ei ddarlith hynod —
'Y stori tu ôl i'r gân.'

Llanrwst oedd wedi gofyn
Am ei wasanaeth o,
Fe aeth yn gynnar, gynnar
I fod mewn pryd, yn do.

Arhosodd yn ei gerbyd
Nes dod rhywun i'r lle
Y Bugail a gyrhaeddodd
Yn barchus i'r fangre.

Dywedodd Arwel wrtho
Ei fod yn hoffi dod
Yn gynnar i'w gyhoeddiad
Rhag rhywbeth allasai fod.

'Dyw heno ddim yn eithriad,
Medd Arwel wrtho'n plis;
Ac meddai y Gweinidog
'Rhy gynnar y'ch o fis!!'

Mae rhai yn dadlau drosto
Ac yntau'n holl fud,
Mae Mawrth a Chwefror 'leni
'Run dyddiad ar eu hyd.

Mae pethau'n dod mewn trioedd
Neu felly maent yn dweud,
O! gwylia'n awr 'rhen lencyn
Be gythral fyddi'n wneud!

Y GWEINIDOG (Pobol y Cwm)


NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Yn gwella: Mae'n dda gennym weld bod David Kendale, Yr Ysgol, yn gwella wedi iddo syrthio tra'n dringo ar y Grib Goch.

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Pwyllgor Neuadd: Mewn pwyllgor yn yr Ystafell Gymuned tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd — 1, Gwen Griffith, Tai Arthur; 2, W. Thomas, 4 Bryntirion; 3, Nancy Williams, 15 Bryntirion.

Gan fod nifer aelodau'r Clwb Cant wedi lleihau yn ddiweddar buasem yn hynod o falch cael croesawu aelodau newydd gan fod hwn yn ddull hwylus i godi arian tuag at y gost o gynnal y Neuadd a'r Ystafell Gymuned. Dim ond 50c y mis neu £6 y flwyddyn ydyw. Diolchir i'r cyfeillion sydd eisoes wedi talu am y flwyddyn hon. Cystyllter â Leslie Larsen, y trysorydd, neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

Derbyniwyd swm anrhydeddus gan Phylis Elis trwy werthiant Webb Ivory dros y Nadolig a diolchir i'r criw bach o garolwyr a gasglodd £47 nos Fercher cyn y Nadolig. Diolchir i bawb a gyfrannodd i'r ddau weithgaredd.

Nos Iau, Ebrill 6ed, am 6.30 p.m. yn y Neuadd Gymuned, bwriedir cynnal 'Noson o Weithgareddau'r Pasg'. Bydd cyfle i wneud cerdyn, llun, addurno het, gwneud gardd Pasg, addurno teisen Pasg, ac addurno wy. Dyna ddigon o amrywiaeth a gobeithir y ceir cystal ymateb ag a gafwyd gyda gweithgareddau Noson Calangaeaf. Bydd paned, raffl a tombola, ar y noson.

Gwellhad: Anfonwn ein cofion anwylaf at y rhai sy'n sâl yn y pentref a gobeithio y bydd dyfodiad y gwanwyn yn gwneud ichwi deimlo'n well.

Llongyfarchiadau mawr a phob bendith i Mrs Gaynor Williams, 15 Bryntirion, ar gyrraedd yr oedran teg o 90 oed.

Diolch: Dymuna Mrs Gaynor Williams, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, ffrindiau a chymdigion am y llu cardiau ac anrhegion a phob arwydd o garedigrwydd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Chwefror 10fed.

Ysgol Feithrin Tan-y-coed: Dydd Mawrth, Chwefror 28ain, bu'r plant yn gwneud crempog yn union fel 'Modryb Elin Ennog'.

Dydd Mercher, Mawrth 1af, mwynhawyd cyngerdd gan y plant ifanc hyn. Roedd rhai mewn gwisg draddodiadol a phob un hefo cennin

pedr yn ei frest. Bu'r plant yn canu hwiangerddi a chyflwyno dawns werin. Dyma galonddid i'r rhai sy'n poeni am ddyfodol ein hiaith a'n traddodiadau.

Yr Urdd: Ionawr 10fed: Dechreuodd y tymor newydd gyda gêm o 'Chwilen'.

Ionawr 17eg: Daeth yr arlunydd lleol Islwyn Williams i ddangos i'r aelodau sut y gallent wneud cartwnau o anifeiliaid. Roedd y plant yn rhyfeddu gweld y gwahanol gymeriadau yn datblygu. Diolch yn fawr, Islwyn.

Ionawr 24ain: Cafwyd noson hwyliog iawn gyda Beryl Jones a'i pheiriant carioci. Diolch yn fwr Anti Beryl ac i'r aelodau a fu'n ddigon mentrus i ganu.

Ionawr 31ain: Cafwyd noson Bingo.

Chwefror 7fed: Diolch yn fawr i Ann Ifans am baratoi cwis 'Blockbusters' ar ein cyfer. Bu cystadlu brwd rhwng y ddau dîm, ond cyfartal oedd y sgôr ar y diwedd.

Chwefror 14eg: Cafwyd gêm Unihoc o dan ofal Amranwen Lynch. Diolch yn fawr Amranwen am ddod atom unwaith eto.

Dymuniadau gorau i'r holl aelodau fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn ystod mis Mawrth.

Eglwys Santes Helen: Dydd Sul, 19 Chwefror, daeth Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Ddr Barry Cennydd Morgan, i Eglwys Santes Helen i gonffirmio tri ar ddeg o bobl ifanc o blwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun. Daeth cynulleidfafa gref i gefnogi'r ymgeiswyr a braf oedd gweld Eglwys y Plwyf yn lawn ar achlysur mor hapus. Y rhai a gafodd eu gonffirmio o blwyf Penisarwaun oedd Siân a William Lewis, Penpwl-coch; Eurig Roberts, Arwel, Llanrug; a Steven Williams, Minafon, Llanrug.

Gyda hwy gonffyrmiwyd Bethan a Ffion Jones, Mathew a Michael Jones, Siôn Wyn Pritchard, Debbie Richer, Jonathan a Lynne Robers, a Lowri Ann Williams o blwyf Llandinorwig. Dymuna'r Parchg Tegid Roberts ddiolch i'r merched am baratoi lluniau blasus ar ôl y gwasanaeth. Dymuna hefyd bob bendith i'r bobl ifanc hyn yn eu gwaith dros Eglwys Iesu Grist yn y dyfodol.

Gwasanaethau'r Grawys yn Eglwys



Y plant o blwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun a gafodd eu gonffirmio gan Esgob Bangor.

Santes Helen: Bydd gwasanaeth o Gymun Bendigaid am 6.30 p.m. dydd Mercher y Lludw (1/3/95) yn Eglwys y Plwyf gyda'r Parchg Canon Glyndwr Williams yn gweinyddu.

Trwy'r Grawys bydd y Parchg Tegid Roberts yn cynnal gwasanaethau a myfyrdod am 7 o'r gloch bob nos Iau gan ddechrau ar y 9fed o Fawrth.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Llongyfarchiadau: Mae Nia Jones, Chwiban y Gwynt, wedi ei dyfarnu yn Fyfrwraig y Flwyddyn yng Ngholeg Amaethyddol Cymru, Aberystwyth. Llongyfarchiadau Nia.

Gwasanaethau'r Sul: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

Mawrth:

5: Parchg W. R. Williams

(Gweinidog) am 2 o'r gloch.

12: Parchg Elwyn Edwards (2)
19: Parchg W. R. Williams (2)
26: Parchg Emrys Thomas (2)

Ebrill:

2: Parchg W. R. Williams (2)

9: Parchg S. O. Hughes (2).

Tynfa'r Pentref: Enillwyr mis Chwefror oedd — £40: Ms Williams, Glandŵr (83); £25: Mrs Berry, Byn Eden (16); £15: Mr a Mrs Carnel, Brogarwch (84).



**SIOP GREFFATU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR**

Basgedi Blodau Sych ★ Siwti

Jams ★ Briwigig ★ Siampw,

Clustogau ★ Ewyn Baddon

Olewon Aromatherapi

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd pwysig
neu ben-blwydd priodas

Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.

GYRRU

gan Y Gwalch

Yn y plwyf yma yn y tridegau roedd yna ddynion yn dal ar gael a oedd yn gwneud bywoliaeth o yrru da ar draws gwlad, un ai i farchnad neu i borfa.

Doedd y dull traddodiadol o amrywio'r borfa dymhorol rhwng ffridd a llawr gwlad ddim wedi llwyr ddiflannu o'r tir, a chyn dyfodiad gwyntoedd y gaeaf byddai'r defaid yn dod i lawr oddi ar y mynydd ac yn cael eu hanfon i lawr gwlad ar lannau'r Fenai a Pentir Llŷn. Roedd y bugeiliaid a oedd yn eu danfon yn didol y diadelloedd ar eu taith ac yn aros tros nos yn y ffermydd.

Byddent yn cael eu cyrchu yn eu hólau wedyn yn gynnar yn Ebrill pan gaeid y caeau ar gyfer gwair. Erbyn hynny byddai gan amryw o'r mamogiaid ŵyn. Byddai car a merlen yn mynd i'w canlyn yn cel ei thywys gan blentyn — fy ngwraig fy hunan lawer gwaith gyda'i thad, a byddai yn codi'r ŵyn blinedig ar y daith.

Roedden ni yn yr hen ffarm yn gyrru ein gwartheg i'r Borth, ac yn dychwelyd hefo nhw, os nad oedd y prisiau yn foddhaol. Byddai'r anifeiliaid wedi eu cynnull yn y buarth dros nos, ac yn y bore byddai'r godro a'r holl ddyletswyddau wedi eu gwneud ar gyfer cychwyn ar doriad dydd.

Efallai y byddai yna ddwsin i bymtheg o fustych yn croesi'r corsydd i'r lôn bost, yn fywiog a ffroen lydan ar ôl eu carchariad, a byddem ninnau a'r cŵn yn cael ein gorfodi i duthio er mwyn cyrraedd y giât fawr cyn iddynt ddechrau corddi. Roedd y cŵn yn anhebgol: Rhyw hen golis mawr brown oedden nhw yn ffyrnig ac annibynnol, ac yn chwanog i gnoi trwynau neu hongian ar gynffonnau. Ond yr oedd modd perswadio rhai i gerdded ar y blaen i blannu eu hunain mewn adwyon a chroesffyrdd.

Erbyn i ni gyrraedd Nant y Garth byddai'r criw wedi arafu ac yn falch o daro eu trwynau yn y ffrwd ger Pont y Ladi Wen. Ein pryder mwyaf erbyn hynny oedd ceisio eu rhwystro rhag cymysgu â gyroedd eraill a oedd ar yr awr honno yn cydgyfeirio am ffordd Bangor ac Allt Tŷ Golchi. Roedd cymysgfeydd o'r fath nid yn unig yn achosi trafferthion didoli yn iard y mart, ond hefyd yn ychwanegu at broblemau rhifyddol casglwr y tollau ar y Bont Grog. Roedd yna hanes unwaith am fuchod rhyw dyddynwr, a oedd yn eu danfon a dref i'w godro, yn cael eu dal mewn

gyrr o'r fath ac yn canfod eu hunain yn y mart. Wrth gwrs byddai tagfa ar y Bont yn aml. Roedd y ddwy ffordd yn gyfyngach yr adeg honno, ac un rhodfa gul rhyngddynt. Ac yr oedd yna ddynion hefo rhawiau yn taflu tail tros y canllawiau. Rwy'n credu mai rhyw ddimai y pen a delid am wartheg yr adeg honno, a gostyngiad wrth ddod yn ôl os nad oeddent wedi eu gwerthu.

Cyn adeiladu'r Bont byddai'r gyrrwyr yn nofio eu hanifeiliaid ac yn cael eu cynorthwyo gan gychwyr a fyddai, os gwir y gair, yn tynnu'r rhai blaen ar draws gerfydd rhaffau am eu cyrn. Ond gan fyrrer yr amser rhwng llanw a thrai yn y culfor, delid rhai anifeiliaid gan y llif a'u cludo ar unrhyw draeth neu i'w tranc.

Ar ôl cyrraedd iard y mart, y peth cyntaf oedd mynd at y clarc yn y swyddfa dŷn i gael rhifau papur a phast i'w gludio, ac aml fyddai'r rhegfeydd ynglŷn ag ansawdd hwnnw. Doedd yna fawr i'w wneud wedyn ond siarad â gwerthwyr eraill ac edrkych ar eu heiddo. Weithiau byddai cyfle i bicio am gwpanaid sydyn, ond doedd yna fawr o flas arni, gan y disgwylid i bob gwerthwr fod yn bresennol pan oedd ei eiddo yn y cylch.

Byddai Jac Llangefni, y gyrrwr trigianol, yn troi'r gwartheg gyda chansen a honno yn gyrfanna, a byddai'r porthmyn a'r cigyddion, y dilars a'r 'cylch prisio' yn sefyll o dan y boc, yn pwnio eu gilydd a chrechweni a thapio eu legins sglein â'u cansenni, tra byddai'r arwerthwyr yn atalnodi ei faldordd olewaidd gydag ambell i 'turn her round John', ac weithiau byddai'n cymryd cynnig o'r awyr ac yn cael ei ddal arno.

Unwaith bu'n rhaid cyrchu rhyw hen fachgen meddw o'r Anglesea i fod yn bresennol yn y boc tra roedd ei wartheg o dan y morthwyl. Ar ôl gwasgu'r cynnig olaf cyndyn o'r porthmyn a'r dilars, gofynnodd yr arwerthwr iddo beth oedd o'n fwriadu'i wneud. 'Wna i ddim â nhw,' meddai, 'mae nhw'n rhy ddrud o lawar.'

Ar ôl gwerthiant llwyddiannus byddem yn mynd eilwaith i'r swyddfa dŷn i gael ein datganiad a'r siec, ac yna banaid arall fwy hamddenol. Roedd fy nhad yn ymwrthodwr. Wnes i erioed brofi awyrgylch yr Anglesea, sydd wedi iddi ddod i hyn, efallai o fawr golled i mi.

Wrth gwrs yr oedd yna sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion y marchnatwyr. Cofiaf am un lle yn arbennig gyda seddau cefnau brethyn, yn arlwygo cig oen a phys a

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440



Gwobr Arbennig: Llongyfarchiadau i Alan Pritchard, Llys Awel, a dderbyniodd wobwr arbennig yn Noson Wobrwy Chwaraeon Arfon yn ddiweddar. Gwelir yr hanes yn llawnach ar dudalen chwaraeon y rhifyn hwn. Mae holl ffrindiau a

chymdogion Alan yn falch ei fod wedi cael ei gydnabod am ei ddewrder a'i ddyfalbarhad. Edrychwn ymlaen at gael rhagor o hanes ei lwyddiant mewn amrywiol chwaraeon.

Capel Rehoboth: Dymunwn adferiad buan i Mr Gwilym Searell Jones sydd wedi bod yn cwyno yn ddiweddar. Mae eich lle wedi bod yn wag yn y sedd fawr. Anfonwn ein cofion at bawb arall sydd wedi bod yn wael yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Croesair: Deallwn bod Alwyn Searell Jones, Dwyfor, wedi ennill gwobr croesair 'Llais Ogwan'. Llongyfarchiadau, Alwyn. Beth am groesair yr 'Eco'? Ydi hwnnw yn rhy anodd i ti?

Baw: Mae trigolion y Nant yn falch bod y gwaith angenrheidiol o flaen tai Bro Glyder yn cael ei wneud, ond yn edrych ymlaen at weld cwblhau'r gwaith gan fod y stryd mor fudr tra bo'r gwaith ar droed.

seigiau, gyda thatws newydd eu codi o'r ardd gefn a jygediau o laeth enwyn i streilio lwod. Yr oll yn cael ei gludo i'r cwsmeriaid gan ddwy ferch brydweddol, a oeddent os gwir y gair, yn rhannu diddanwch pellach yn hwyrach ar y dydd. Roedd y ffyddloniaid meddid yn gallu dweud pa un oedd ar gael ar awr arbennig wrth sylwi ar leoliad dwy dartan blât a fyddai yn gyson yn y ffenest; afalau a chyraints. Dibynnu pa un a fyddai agosaf at y gwydr.

Rhai troeon byddai'n rhaid cychwyn am adre hefo'r gwartheg gwedyn. Ar un achlysur rwy'n cofio i ni gael ein dilyn tros y Bont gan ddau borthmon taer oedd yn ceisio curo fy nhad i lawr yn ei bris. Dal i fynd wnaethon ni fodd bynnag nes cyrraedd pen Allt y Faenol. Yno

goddieddwyd ni gan y gwyll a'r glaw. Bu hynny efallai yn foddion i'r dynion godi eu cynnig, a tharawasant ddwylo. Gwnaeth hynny finnau o dan yr amgylchiadau yn hogyn hapus iawn.

Fyddai'r diwrnod chwaith ddim yn diweddu heb gael ymladdfa gŵn, yn enwedig ar dywydd poeth. Os na fyddai'r colis wedi darganfod bytheuad rhywun arall i'w gnoi, byddent yn siŵr o ymarfer ar eu gilydd. Yr unig ffordd i'w rhyddhau fyddai eu pannu â ffyn neu eu tynny gerfydd eu cynffonnau.

Cyn diwedd y degawd daeth y tryciau gwartheg i'n rhyddhau o'r pryder o gymysgu gyroedd a chyrraedd mewn pryd, ond yn ogystal â'r anifeiliaid, cludasant ymaith lawer o'n diddanwch hefyd.

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** ichwi
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

'Un funud fach . . .'

DUWIAU?

Bruce Grobbelar a'r honiadau o lwgrwobrwyo; Paul Merson a'i broblem cyffuriau, yfed a gamblo; Eric Cantona yn ymosod ar gefnogwr; George Graham a'r twyll ariannol; cefnogwyr Lloegr yn creu hafoc yn Nulyn. Does ryfedd bod llawer yn poeni am yr hyn sy'n digwydd yn y byd pêldroed y dyddiau hyn.

Trafodwyd yr helyntion hyd at syrffed yn ystod yr wythnosau diwethaf. Er mor ddifrifol yr holl bethau hyn, rhywbeth arall sydd wedi gwneud i mi deimlo'n anniddig wrth wyllo gêmâu yn ddiweddar.

Sôn yr ydw i am yr arfer cyffredin o foesymgrymu o flaen y chwaraewyr. Sylwoch chi ar y duedd? Dwy fraich yn yr awyr a phlygu drosodd mewn gweithred o addoliad. Y mae chwaraewyr fel Giggs a Le Tissier a'u tebyg yn ddawnus, ond dydyn nhw ddim yn dduwiau. Ac nid yn unig y cefnogwyr sydd wrthi. Welsoch chi chwaraewyr Wrecsam yn moesymgrymu fel un gŵr o flaen eu cefnogwyr ar ddiwedd un gêm arbennig?

Rwy'n cyfaddef mai tipyn o hwyl diniwed yw hyn yng ngolwg y rhan fwyaf o bobol. Mae'n bosibl nad yw hyn ond gwedd arall ar y duedd ddiweddaraf o ddathlu sgorio gôl mewn steil. Ond tybed nad yw'n fwy difrifol na hynny? Mae pêldroed (fel aml i beth arall) wedi cael y lle pwysicaf ym mywyd llaer o bobl ers talwm, ac arwyd y gamp wedi cael eu trin fel duwiau bach. Ai cadarnhad 'diniwed' o hynny yw'r holl fusnes moesymgrymu hwn?

Mae'n hawdd gwneud duwiau a chodi delwau i ni ein hunain. Gall pob math o bethau ar wahân i bêldroed gymryd y lle a ddylai Duw ei gael gennym. Mae'r un mor bosib mai arian, neu swydd, neu dŷ, neu ddiddordeb, neu deulu, neu'r awydd i fwynhau ein hunain sy'n cael ein sylw pennaf ni.

'Na foed i ti dduwiau eraill ger fy mron i.' Mae torri'r gorchymyn cyntaf hwn yn arwain at bob math o ddrygioni arall ym mywyd unigolion a chymdeithas. A phobol ydi pêldroedwyr hefyd.

JOHN PRITCHARD

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb Elidir: Bu cyfarfod ar 14 Chwefror o dan lywyddiaeth Mrs Jane Jones. Gwestweion y te oedd Mrs Janet Bingham, Mrs Aileen M. Jones a Miss Eileen Williams. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Miss Eileen Williams, gan Mrs Annie M. Morris.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Jane Jones ac fe longyfarchwyd Mrs Aileen M. Jones ar fod yn hen nain am y tro cyntaf.

Anfonwyd ein cofion i amryw o'n haelodau sydd yn wael ar hyn o bryd, sef Mrs Glenys Williams, Mrs Mair Owen, Mrs Beti W. Davies, a Mrs Ellen Williams sydd erbyn hyn yng Nghartref Pengwaith, Llanberis.

Diolch yn fawr iawn i Mr Edwin Evans am ei rodd anrhydeddus i'r Clwb.

Genedigaeth: Ar Ionwr 16eg yn Ysbyty Gwynedd ganwyd merch, Elin Angharad, i Wendy a Gwynfor James, chwaer fach i Owain Llŷr, 9 Rhes Faenol, Deinolen.

Dathlu Pen-blwydd yn 90 oed: Ar Chwefror 5ed dathlodd Mrs Mary Jones ei phen-blwydd yn 90 oed. Symudodd Mrs Jones o Ddeiniolen i fyw i Fangor tua saith mlynedd yn ôl. Derbyniodd lu o gardiau ac anrhegion ac fe garai ddiolch yn ddiffuant iawn i'w theulu a'i chyfeillion yn Neiniolen a'r cylch am eu caredigrwydd.

Cyngor Eglwys Deinolen: Cynhelir oedfa dan ofal y Parchg Ddr Geraint Tudur yng nghapel Ebeneser, nos Lun, Mawrth 13eg, am 7 o'r gloch.

Llwyddiant Cerddorol: Hyfryd yw clywed canmoliaeth i'n pobl ifanc a dyma a glywyd am Iwan Gruffydd Williams, Hafle, Rhes Faenol, ym Manceinion yn ddiweddar. Llwyddodd Iwan i ennill gwobr goffa Harry Mortimer 1994, am gyflwyno perfformiad ar ei gorned fel rhan o'i arholiad pan yn gwneud ei radd yn ystod yr haf y llynedd. Cyflwynwyd cwpan hardd ynghyd â gwobr ariannol iddo tra roedd yn un o'r unawdwyd gwadd mewn cyngerdd ym Mhrifysgol Salford ar ddechrau'r flwyddyn. Talwyd teyrnged uchel iawn iddo gan bennaeth astudiaethau band y coleg. Llongyfarchiadau iwan a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i Donna Marie Lewis, Pentre Helen, ar ennill y fedal am yr unawd o dan 10 oed yn

Eisteddfod Garndolbenmaen yn ddiweddar. Daeth yn drydydd hefyd ar yr adrodd o dan 10 oed.



Diolchiadau

Dymuna Wendy a Gwynfor James, 9 Rhes Faenol, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch, Elin Angharad.

Dymuna'r gymuned estyn eu gwrethfawrogiad a'u diolchgarwch i'r rhai sydd wedi, ac yn dal i ymdrechu i gael cyfiawnder i'r cynchwarlewyr yn yr ardal.

Dymuna teulu'r diweddar Robert Jones, Caxton House, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y rhoddion o £110 tuag at Gronfa Haemaetoleg Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Mrs Glenys H. Williams, Tyn-y-clwt, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu yn Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl iddi ddod adref. Diolch hefyd i'r cymorth cartref am eu caredigrwydd.

Dymuna teulu y diweddar William John Close ac Ellen Close, ddiolch i gymdogion a ffrindiau am y lluo o gardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a thad annwyl a hynny mor agos i'w gilydd.

Dymuna Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig, a'r teulu oll, ddiolch o galon am bob arwydd o

gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mrs Mary Thomas, chwaer annwyl a modryb hoff, gynt o 7 Vaynol Terrace, Deinolen. Diolch am yr ymweliadau, cardiau, llythyrau a galwadau ffôn, ac am y rhodd deilwng o £265 a dderbyniwyd tuag at gapel Cefnywaun. Diolch o galon i bawb.

Y Seindorf: Llongyfarchiadau i aelodau'r Seindorf fu'n cystadlu ym mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru, a gynhaliwyd ym Mangor ganol y mis, ac yn enwedig i Euros Williams a Gavin Saynor a ddaeth yn ail a thrydydd yn yr *Aire Varie* dros 18 oed; ac i Jennie Lyn Morris ac Arwel Williams a ddaeth yn ail yn y ddeuawd i rai o dan 14 oed.

Cafwyd noson arbennig o dda nos Lun diwethaf pan aeth y Seindorf i ddiddanu Clwb Ysgol Pendalar yng Nghaernarfon.

Dyma enillwyr diweddar y Clwb 200 — mis Ionawr: £25: Megan Williams (25); £15: William Orwig Williams (131); £10: B. Jones, Glandŵr (171). Enillwyr mis Chwefror — £25: Mair Jones (28); £15: Alun Evans (182); £10: Dafydd Williams (56).

Eglwys Crist, Llandinorwig — Gwasanaethau'r Grawys: Bydd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 6.30 p.m. dydd Mercher y Lludw (1/3/95) yn Eglwys y Plwyf gyda'r Parchg Ioan Wynne Jones, Caernarfon yn gweinyddu.

Trwy'r Grawys bydd y Parchg Tegid Roberts yn cynnal gwasanaethau a myfyrdod am 7 o'r gloch bob nos Fercher, gan ddechrau ar yr 8fed o Fawrth.

Y Gymdeithas Undebol: Cynhaliwyd dau gyfarfod ers dechrau'r flwyddyn. Nos Lun, Ionawr 23, cafwyd cyfarfod hwyliog yng ngofal rhai o aelodau'r Gymdeithas. Roedd y 'Brethyn Cartref' yn cynnwys stori, cwis a chân. Mrs Iona Richards oedd yn llywydd y noson. Nos Lun, Chwefror 26, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Iwan Roberts, Llanrug, am ei gasgliad o hen gardiau pŵst. Mrs Jane Jones oedd yn llywyddu'r cyfarfod hwn. Cytunodd Mr Tydfil Jones i drefnu'r Swper Blynnyddol a fydd yn cloi gweithgareddau'r tymor eleni eto.



Ysgol Gwaun Gynfi: Enillodd Kayleigh Jones (blwyddyn un), lego mewn cystadleuaeth Cwmni Masnachol Gwynedd. Cafodd y wobwr gyntaf yn ei hoedran. Y gystadleuaeth oedd dod o hyd i wahaniaethau rhwng dau lun.

Yng nghlwb cant Cymdeithas y Rhieni fe aeth y wobwr gyntaf i Mrs Jean Grindley, 12 Pentre Helen; yr ail i Miss Margaret Jones, 10 Ffordd Deinol; a'r drydedd i Mrs Ann Lea o

Gegin, Dinorwig.

Ymddeolodd Mrs Nancy Williams fel glanhawraig ar ôl un deg pedwar o flynyddoedd. Rhoddwyd anrheg iddi oddi wrth staff yr Ysgol i ddiolch iddi am ei gwaith caled ar hyd y blynnyddoedd.

Daeth Mr Ellis Williams i siarad gyda blwyddyn 6 am Chwarel Dinorwig a bywyd y chwarelwyr amser maith yn ôl.

KELLIE, LOWRI A RHIAN

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Wyt ti'n cofio?

Wyt ti'n cofio tipyn o hanes Glanmoelyn? Yr oeddet yno o fy mlaen i, a dw i'n siŵr fod gen ti atgofion fyrdd. Byddai dy fam yn yr un dosbarth â fy mam innau, os cofiaf yn iawn. Yr oeddynt yno yn amser y 'Welsh Not' felltgedig. Ar lechen yr ysgrifennai'r plant a chofiaf fy mam yn dweud iddi yn lle gwneud tipyn o waith ysgrifennu yn tynnu lluniau a rhyw hogan yn achwyn amdani, yn Saesneg wrth gwr, roedd cosb am siarad Cymraeg. 'This girl Hannah Jones is making llun bagalun', beth bynnag oedd hwnnw. Am fod mam wedi bod yn ysgol Glanmoelyn yno yr anfonwyd finnau pan ddaethom i fyw i Lanrug a minnau yn naw oed, ond roeddit ti yn hogan fawr y pryd hynny.


Hen ysgol eglwys oedd hi. Roedd rhai o blant y pentref yn mynd i Ysgol Bryn Eryr, ond i hen ysgol Glanmoelyn yr anfonwyd fi. Mae'n rhaid fod yr ysgol yn orlawn achos yn festri Capel Mawr yr oedd y dosbarth babanod. Cofiaf ddod i aros dros dro a mynd yno efo fy nghefnider a'm cyfnither a Miss Polly Morris oedd yr athrawes. Roedd hi'n annwyl iawn o'r plant bach.

Ond yn naw oed i ddosbarth Miss Parry (standard 3) yr ês i. Dosbarthiadau cymysg, bechgyn a genethod, yn eistedd wrth fy ochr roedd Jane, Glandwr (Crawia) a chofiaf fod ganddi dorreth o wallt hir a byddwn yn genfigennus iawn ohoni, gan mai gwallt fel gwallt babi oedd gen i ac yn methu'n glir â dal rhuban gwallt, ac fe fyddwn yn eu rhoi i Jane. Os gwn i lle mae hi. Henry Richard ac Eddie Parry oedd y bechgyn yn eistedd y tu ôl imi. Hen ddesgiau digon annifyr oedd yno, ac ystafelloedd oer, dim ond lle tân i gynhesu, a phan

fyddai yn oer iawn byddem yn cael sefyll yn gylch o gwmpas y tân. Llawer o'r plant yn dioddef o losg eria. Doedd dim sôn am dwymwr canolog, ac roedd y tŷ bach ymhen draw'r iard a gorfod mynd allan yno ar bob tywydd — llawer damwain mae'n siŵr. Arferai rhai o'r plant fynd a bara llefrith mewn piser i'w cinio, yn enwedig plant ffordd bell a'i gynhesu ar y tân.

Mr D. T. Rees oedd y prifathro, gŵr bonheddig o Sir Aberteifi, yn ddiagon yng Nghapel y Bryngwyn, ac yn byw yn Llys Llewelyn. Ar un prynhawn yr wythnos byddai'n mynd a'r hogiau i'r ardd i ddysgu garddio, a'r genethod yn cael dosbarth gwnio efo Miss Parry. Fu'r nodwydd ddur a minnau fawr o ffrindiau ond prynodd mam ddefnydd i wneud brat imi o Siop Newydd (siop Mrs Hudson Roberts) glas oedd o a sbotiau gwyn arno, ond doedd yna fawr o siâp arno. Cefais ddarn o galico hefyd i wneud clustog, ond roedd hwnnw yn sbotiau gwaed i gyd, a gwelodd Miss Parry na wnawn i ddim gwniadwraig byth!

Mynd i Standard 4 wedyn a Miss Mary Madog Jones oedd yr athrawes. Roedd gen i barchedig ofn iddi hi, a fŷm i ddim yn ei dosbarth yn hir. Cofiaf iddi ein dysgu i ganu 'Breuddwyd y Frenhines'. Er mwyn i mi gael trio'r sgolarship (eleven plus) fe'm hanfonwyd i Standard 5. Miss Griffiths, Waun, chwaer Mrs Jones, Tegfryn, oedd yr athrawes. Credaf mai cam oedd neidio dosbarth fel hyn. Ond mae'n rhaid i mi gael sôn am yr 'oral'. Os oeddech yn pasio'r gwaith ysgrifenedig, roedd rhaid mynd am 'oral ecsam'. Pan oeddwn i i fod i drio honno, roeddwn yn sâl yn fy ngwely. Ni chefais fynd i Ysgol Brynrefail i



Taith gerdded go anarferol gafodd cyfaill o Lanberis yn ddiweddar — yr holl ffordd o Fethesda i Lanberis ganol nos, gan gyrraedd adref tua 5 o'r gloch y bore. Rwy'n DYFARNU bod hyn yn ffordd dda o gadw'n heini, Meical.

drio'r ecsam, ond mynnodd Mr Rees fy mod yn cael mynd i'r Cownti yn y dre i drio'r ecsam. Yn Saesneg oedd yr arholiad; dyna gam oedd plant bach y wlad yn ei gael. Gofynnwyd cwestiwn fel hwn: 'Which is correct? "The yoke of an egg IS white", or "ARE white".' Roedd gennym ni ieir gartref a dyma fi'n ateb ar unwaith, 'The yoke of an egg is YELLOW!' ac mi basiais y prawf!

Y rhaglen 'All Our Lives' ar yr BBC sydd wedi gwneud i mi hel atgofion fel hyn. Mae'n siŵr gen i bod gan lawer o bobl eraill atgofion am hen ysgol Glanmoelyn a Lanrug a fyddai'n werth eu rhannu. Beth am roi 'beiro ar bapur' er mwyn i ni gael dipyn o hanes ein pentref ni.

Cofion cynnes,
G.M. (Jones)

Dŵr, Dŵr, Dŵr!

Rwy'n cofio ardal y Cwm yn dioddef llifogydd mawr a difrod garw. Roedd wedi bwrw yn ddiderfyn am bron i ddeg diwrnod, ac o ganlyniad gorlifodd Afon Seiont ei glannau a daeth yr ardal dan ddilyw. Roedd tua pedair neu bum troedfedd o ddŵr yn ein tŷ ni. Roedd y dŵr yn y pentref yn cyrraedd at gwt yr Hers a thu isa' i Lythyrdy yr ardal. Digwyddodd hyn pan oeddwn i'n blentyn, yn y flwyddyn 1929. Roedd y llifeiriant yn dod o bob cyfeiriad, o'r Wyddfa, o'r chwarel, o lethrau Fach-wen i Lyn Padarn, ac yna ar hyd yr Afon Seiont trwy ardal y Cwm, Pont-rhythallt, Pontrug i'r Fenai. Roedd rhes o fythynnod yn yr ardal, sef Pool Street, ac yr oedd y dŵr yn cyrraedd y llofft do yn y tai hynny am bythefnos, fwy neu lai. Gwastraffwyd llawer o fwyd a gadwyd yn y cypyrddau. Daeth help o'r diwedd o gyfeiriad cymydog; llwyddodd 'Hen Bar', Hugh Parry Williams, i

gyrraedd at y tai yn ei gwch. Bu'n brys yn siopa a chario nwyddau i'r tai yn ei gwch. Cofiaf fod fy nhad wedi mynd i lawr y grisiau i nôl padell ffrío a primus stove a photel o methylated spirit, a chawsom bryd o gig moch a thafell o fara gwyn.

Roedd y cyfnod hwnnw yn galed; gweithwyr y pyllau glo ar streic; ac arian yn brin. Roedd angen 'means test' i benderfynu faint o arian a gâi fy nhad i fwydo pump ohonom. Parodd y llifogydd i 'nhad fod yn ddi-waith, ac nid oedd iawndal nac yswiriant eiddo ar gael bryd hynny. Ond yr oedd y rhai nad oedd y llifogydd wedi amharu arnynt yn cynorthwyo'r teuluoedd a ddioddefodd.

Dyma rai o'm hatgofion am Gwm-y-glo, yr ardal lle cefais fy magu, lle roedd pawb yn cyd-dynnu â'i gilydd. Byth nid â'n angof gennyf.

STANLEY CWM
71 Brmham Drive, Harrogate,
Swydd Efrog

CYNGOR BWRDEISDREF ARFON BOROUGH COUNCIL		SWYDDFA ARFON, PENRALIT, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1BN. ☎ (0284) 673113 Ffôn/Fax (0284) 677136	
TABL AMSER DOSBARTHU TOCYNNAU BWS LLANBERIS A CYLCH		TIME TABLE ISSUE OF BUS PASSES LLANBERIS AND DISTRICT	
DYDD MERCHER 15 MAWRTH WEDNESDAY 15 MARCH	DINORWIG	Y GANOLFAN/ COMMUNITY CENTRE	9.30 - 10.00
	DEINIOLEN	Y CABAN, YSGOL GWAENGYNFI COMMUNITY ROOM	11.00 - 1.00
	CWM Y GLO	YSGOL Y PENTREF/ VILLAGE SCHOOL	2.00 - 2.30
	PENISARWAUN	NEUADD EGLWYS SANTES HELEN, ST HELENS CHURCH HALL	2.45 - 3.30
	BRYNREFAIL	FESTRIR CAPEL/ CHAPEL VESTRY	3.45 - 4.15
DYDD IAU 16 MAWRTH THURSDAY 16 MARCH	NANT PERIS	FESTRIR CAPEL/ CHAPEL VESTRY	10.00 - 10.30
	LLANBERIS	ANGORFA, STRYD FFYNNON/ ANGORFA, WELL STREET	10.45 - 12.45
	LLANRUG	INSTITUTE, Ffordd yr Orsaf/ THE INSTITUTE, STATION ROAD	2.00 - 4.00
DYDD GWENER 17 MAWRTH FRIDAY 17 MARCH	WAUNFAWR	Y GANOLFAN/ COMMUNITY CENTRE	10.00 - 12.00
	BETHEL	Y GANOLFAN/ COMMUNITY CENTRE	2.00 - 2.30

CODI'R TAL O £3.00 AM BOB TOCYN A WERTHIR
A CHARGE OF £3.00 WILL BE MADE FOR EACH BUS PASS SOLD

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim

BANGOR

(01248) 364493
unrhyw adeg

AMDDIFAD YN LIMBO

Rhagor o atgofion plentyndod yn Llanberis
gan Miss O. M. Davies, Bangor

Byddai Evelyn, fy chwaer, yn eistedd wrth y bwrdd bwyd a'i llygaid bron ynghau a byddai'n cadw'r bara yn nhaflod ei cheg ac yn sugno, sugno fel babi. Anti'n sylwi ac yn dweud y drefn wrthi a finnu'n deud dim, ond yn teimlo'n ddichellgar. Oherwydd roeddwn innau hefyd wedi cael fy hun ar brydiau yn syrthio'n ôl ar yr arfer yma o fynd i ryw lesmair anghofus. Ai syrthio'n ôl (*regression*) i fabandod cysurus di-bryder oedd hwn, ni wn.

Nid oedd Evelyn yn eneth gref ac yr oedd bob amser yn llwyd ei gwedd ac heb lawer o egni corfforol. Byddai Anti'n dweud ei bod yn eneth ddwys. Cofiaf iddi roi defnyddiau o iodine iddi i yfed mewn dŵr. Gan ein bod fel chwiriorydd yn agos o ran oed yr oedd y baich o'n dilladu yn fwy gan na allai dillad fy chwaer ddod i mi yn eu tro. Caem ein gwisgo yn yr dull ac yn debyg i efeilliaid. Roedd chwaer Anti a'i gŵr, a oedd yn byw yn hen 'Tŷ Trap', Victoria House, yn ben y stryd, wedi cymryd at fy mrawd, Robin, a chai groeso yno ac ambell ddilledyn newydd fel anrheg. Gan ei fod yn fengach na ni nid oedd yn ymwybodol o'r pryderon teuluol ar y dechrau, ac eto roedd cael ei fagu yng nghanol criw o ferched, heb dad y gallai ei weld a'i glywed bob

dydd, yn sicr yn ei wneud i deimlo'n wahanol i'r bechgyn eraill.

Ni welais lawer o lyfrau yn ein tŷ ni ond roedd yna lond cwpwrdd o gerddoriaeth piano a llais, ynghyd â llyfrau perthnasol i'r Eglwys. Dechreuais chwarae'r piano o lyfr sol-ffa yr Emynau a'r Salmau a thalodd Taid am i mi gael gwersi piano gan Mr Jones, Alaw Mai, ond, cyn i mi gael fy nhraed odanaf, bu farw fy nhaid a dyna ddiwedd ar y gwersi piano. Cario ymlaen i chwarae'r piano i'm dyfyrdd fy hun a wnes i — weithiau drwy'r sol-ffa, weithiau drwy'r glust, a thrwy ganu'r emynau a'r salmau a glywn yn yr Eglwys.

Roedd ein stryd ni yn gymdeithas fach ar wahân, wedi'i gwahanu o'r pentref gan y Ddôl Fawr. Gelwid Coed y Ddôl ar un ochr a Blaen y Ddôl ar yr ochr arall, ac ar lafar byddem yn dweud 'Coedol'! Yr oedd fferm helaeth a berthynai i Westy'r Victoria, neu'r 'Ring' fel y dywedem ni, a phob gyda'r nos yn yr haf byddai Hayes yr Hwsmon yn gyrru'i wartheg i lawr y sgtryd, dros Afon Hwch, o dan draphont rheilffordd y trên



'Limbo' Llanberis fel yr oedd rhyw 60 mlynedd yn ôl.

fach ac i'r Ddôl Fawr. Ddiwedd yr haf caem ni blant hwyl yng nghanol prysurdeb torri gwair — yr awel yn chwythu o'r llyn a'r awyr yn las uwchben Elidir. Yn yr haf hefyd y tyrrai'r ymwelwyr i lawr y stryd i gyfeiriad y llwybr a lediai drwy'r coed, heibio'r Ceunant Mawr, ac i'r Wyddfa. Aem ni enethod i chwarae 'tŷ bach' a'n dychymyg yn troi mwsog a thegis a mân gerrig yn elfennau ein dyheadau a'n dynwarediadau. Gwelem y 'byddigions' yna rhedem at y giât a'i hagog a chaem geiniog am wneud, yna ffurfiem yn ddwy reng bob ochr i'r ffordd a sythem fel soldiwr a chanu 'Mae Hen Wlad fy Nhadau', neu 'God Save the King'. Cyn y byddem yn rhygnu arni allan o diwn neu faglu ar y geiriau byddai'r 'leader' apwyntiedig wedi cael deuswllt neu hanner coron i rannu rhyngom. Buan y gwaharddwyd plant 'respectabl' — plant stiwardiaid a rhieni gweddol sidet — rhag ymuno yn y gweithgaredd cywilyddus hwn. Ceisiais i fygu'r loes, a chan fod gennyf lais swynol cefais rywfaint froliant yn awr ac yn y man. Nid oedd pob 'fisor' yn croesawu'r begera hyn a gwithient ni o'r neilltu yn sarrug.

Yn amlwg roedd Anti'n ei chael hi'n straen i dalu 'i ffordd ac felly fe brynodd ddau gerdyn i'w rhoi yn ffenestr-bwa y parlwr

— un a'r gair 'Accommodation' arno a'r llall yn dweud 'Teas'.

Ar ddydd Mawrth y byddai Anti yn pobi ac erbyn i ni gyrraedd adref o'r ysgol gwelid rhes o dorthau ar y bwrdd ynghyd â tharten gyrains neu afal. Yn amlach na pheidio byddai'r crwst braidd yn welw ei wedd am fod y tân o dan y popty wedi marw. Gan nad oedd trydan na nwy yn y stryd fe ddibynnai pawb ar eu gratiau mawr neu ar y popty yn y gegin gefn. Gallai rhai brynu stôf paraffin gyda dwy fflam odani a lle i ddwy sosban, a phopty y gellid ei rhoi arni. Roedd Siop yr Efail — y rhes o dai bach, unllawr, ger Pen Wal gyferbyn a'r 'Ring' — yn gwerthu manion fel oel-lamp, matsus, canhwylau, blac-led, sebon, lliw glas, 'zebra', brasso, methylated spirit, ac ati. Os oedd y stôf yn hen ac yn dechrau datgymalu byddai oglau paraffin yn casglu a huddug du yn dianc i lenwi'r gegin. Rhaid fyddai cael digon o briciau — mân frigau a ddisgynnai ar lawr y goedwig a gasglen gan eu llusgo o'r Parc Mawr gan fod torri canghennau a boncyffion yn drosedd yn erbyn y Stâd, ond fe â'i rhai o'r gwŷr yn ddirgel i berfeddion y goedwig.

(Bydd atgofion Miss O. M. Davies yn parhau yn rhifyn Ebrill o'r Eco.)

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug



Lake View
Hotel

LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
675754

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn: Enillwyr 1/1/95 oedd — £35: Dr Gwyn Williams, 1 Preswylfa (33); £25: Mrs Myfanwy Jones, Llys Eryri (180); £15: Mrs Eileen Roberts, Maes Padarn (56); £10: Michelle Thomas, Bon Marché (189); £5: Mrs Liz Jones, Bod Gwilym (175). Enillwyr 1/2/95 oedd — £35: Ceri W. Jones, 30 Stryd Fawr (31); £25: Mrs Mary Jones, Minffordd (10); £15: Mrs A. Pritchard, Madryn (39); £10: Miss Catrin Pepper, Cynefin, Brynrefail (17); £5: Dr Gwyn Williams, 1 Preswylfa (30).

Diolch o galon i bawb sydd wedi cefnogi'r Clwb 200 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gobeithio y byddwn mor llwyddiannus yn y flwyddyn sydd i ddod. — Mrs G. E. Roberts

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Cynhaliwyd cyfarfod yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Iau, Chwefror 2il, dan lywyddiaeth Mrs Anne Parry-Jones. Y mis yma croesawyd aelodau o Gymdeithas Eglwys St. Anne atom, a chafwyd noson arbennig o hapus yn eu cwmni. Trefnwyd cwis ysgafn rhwng y ddwy gymdeithas gyda Mr Arthur Jones, St. Anne, yn holi, â'r tîm cartref yn colli o ychydig farciau yn unig! Diolchwyd i bawb am wneud y noson mor lwyddiannus ac i Mr Aneurin Jones gan Mrs Evelyn Williams.

Llongyfarchiadau i Adrian Vaughan Williams, mab Dennis a Dorothy Williams, 23 Stryd Fawr, ar ennill gradd MSc y Brifysgol Agored. Addysgwyd Adrian yn Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail. Mae'n awr yn gweithio yn Quinton Hazell ym Mae Colwyn. Ers iddio briodi â Brenda maent yn byw yn y Gaerwen, Môn.

Undeb y Mamau: Prynhawn dydd Mawrth, 7fed Chwefror, cynhaliwyd pwyllgor blynyddol Undeb y Mamau yn festri eglwys Sant Padarn. Ailetholwyd y swyddogion yn unfrydol ac fe addawodd y dair i gadw eu swyddi am flwyddyn arall. Cofrestwraig: Mrs Dilys Phillips; Trysoryddes: Mrs Enfys Parry; Ysgrifennyddes: Mrs Audrey Evans.

Diolchwyd i'r swyddogion, ac i'r merched am y te, gan Mrs Betty Humphreys a Mrs Hilda Williams. Y merched a ofalodd am y baned oedd Mrs Kathleen Williams, Mrs Clara Roberts a Nyrs Glenys Parry.

Croesawu: Nos Fawrth, y 24ain o Chwefror, cynhaliwyd noson o gaws a gwin yng Ngwesty Dolbadarn. Pwrpas arbennig y noson oedd cael estyn croeso i deulu newydd y Rheithordy.

Deallir i'r Parchg a Mrs Philip Hughes fwynhau eu hunain yn fawr tra'n sgwrsio â'r ardalwyr. Cafwyd noson ddifrif iawn yn wir. Aeth elw'r noson tuag at gronfa atgyweirio tŵr Eglwys Sant Padarn.

Côr Meibion Dyffryn Peris: Mae'r côr wedi cael dechrau prysur iawn i'r flwyddyn newydd fel a ganlyn:

28 Ionawr: Bu'r côr yn cynnal Noson Lawen i ffermwyr cefnog ardal Nant Conwy yng ngwesty'r Eryr, Llanrwst.

3 Chwefror: Noson Lawen yng nghwmni Rosalind a Myrddin yng

ngapel Penmownt, Pwllheli. Arweiniwyd y noson gan Glyn Roberts, cyn-faer Pwllheli, ac ef hefyd a ysgrifennodd 'Safwn yn y Bwlch' cân boblogaidd Hogia'r Wyddfa, a braint y côr oedd cael ymuno gyda'r Hogia i ganu'r gân yn arbennig i Glyn. Roedd elw'r noson, ynghyd â chostau'r cor, yn cael ei anfon i Ysbyty Alder Hey, Lerpwl.

Hwyl y Clwb Snwcer



Edryd (ar y dde), a David wrth ei ochr gyda'r bechgyn a fu'n cystadlu.

Cynhaliwyd dwy gystadleuaeth arbennig yng Nghlwb Snwcer Llanberis ym mis Chwefror. Cafwyd cystadlu brwd unwaith eto am Gwpan Coffa Glyn Penny. Dau chwaraewr ifanc a gyrhaeddodd y rownd derfynol eleni, ac enillwyd y Cwpan gan Alan Ellis, Marc Lloyd Williams oedd ei wrthwynebwr yn y rownd derfynol, ac enillodd Alan yr ornest o dair ffrâm i ddwy. Cystadleuaeth newydd sbon oedd yr ail, wedi ei threfnu yn arbennig ar gyfer aelodau iau y Clwb. Y mae amryw o ieuencid wedi ymuno â'r Clwb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a buont yn cystadlu am Gwpan Iau y Clwb. David Fletcher ac Edryd Sharpe a gyrhaeddodd y rownd derfynol, ac Edryd oedd yn fuddugol. Mae aelodau'r pwyllgor yn gobeithio y bydd yr ieuencid yn dal ati i fynychu'r Clwb a mwynhau'r gêm.

Diolchiadau: Dymuna teulu'r diweddar Joseph Butler, Snowdon View, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn. Diolch am y cardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn, ac y cyfraniadau hael tuag at Uned Ymchwil y Galon.

Dymuna Nancy a Hugh, 79 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt tra buont yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Enid Lloyd Roberts, Cartref Bron Eryri, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd dros y Nadolig ac ar ddathlu ei phen-blwydd ym mis Ionawr. Diolch hefyd i staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd, a phawb yn Bron Eryri a'r nyrsus lleol am eu gofal ar hyd y flwyddyn.

11 Chwefror: Ym Mhwllheli eto gyda Noson Lawen yn y Clwb Golff.

23 Chwefror: Noson adref — yng ngwesty'r Fictoria.

27 Chwefror: Noson i ddathlu Gŵyl Ddewi yn neuadd pentref Beddgelert.

4 Mawrth: Yn y Bontuchel, Rhuthun.

10 Mawrth: Bydd y côr yn ymuno â Seindorf Arian Deiniolen yng nghlwb y Lleng Brydeinig, Llanberis.

24 Mawrth: Yn Nhudweiliog, Llŷn.

28 Ebrill: Tro am y Rhos, sef Rhosllannerchrugog.

29 Ebrill: Ym Mhencaenewydd, Eifionnydd.

30 Ebrill: Yn y Gilfach Ddu.

Ddeunaw mlynedd yn ôl...

Y geiniog oedd yn hawlio'r sylw ar dudalen flaen rhifyn Mawrth 1977 o'r *Eco*. Roedd pris yr *Eco* ei hun wedi codi o 8c i 10c. Ac roedd rheithor a wardeiniaid Eglwys Llan-ddeiniolen yn lansio apêl i godi £1,000 er mwyn atgyweirio'r eglwys. Ofnid y gallai'r eglwys gau os na lwyddid i godi'r arian.

Roedd y Prifardd T. Llew Jones wedi bod yn Ysgol Dolbadarn yn sgwrsio â'r plant, a gwelir llun ohono yn derbyn copi o record côr plant yr ysgol yn anrheg.

Roedd y golofn 'Seneddau'r Fro' yn rhoi canlyniadau arolwg a wnaed gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd o ddŵr yfed y fro. Roedd 22 allan o'r 60 samp o ddŵr yfed a gymerwyd yn anfodddhaol. Dim ond yn Nant Peris y cafwyd dŵr derbyniol ym mhob achos.

Ar y dudalen chwaraeon adroddwyd yr hen hanes am wahardd tîm o Nant Peris rhag chwarae pêl-droed. Yn 1925 y bu i Gymdeithas Bêl-droed Cymru roi'r gwaharddiad wedi i un o gefnogwyr tîm y Nant ymosod ar ddyfarnwr. Roedd pob tîm arall yn ael ei rybuddio i beidio â chwarae yn erbyn Nant Peris hefyd.


Wedi blwyddyn da yw bloeddio — 'Hwrê';

Dal yn gryf mae'r *Eco*;

Am ei bris mae'n rhwymo bro

A ninnau'n falch ohono.

Tony Elliott



Marc, Alan a Meirion Evans, Cadeirydd y Clwb.

Dymuniadau gorau: Anfonwn ein cofion at Mr Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn Lerpwl ac ym Mangor. Gobeithio y bydd yn teimlo'n ddigon da i ailafael yn ei erthyglau 'Y Llaw sy'n Siglo'r Crud' yn yr *Eco* yn fuan iawn.

Eisteddfod: Cynhaliwyd Eisteddfod Llanberis yn festri Capel Coch, nos Wener, Chwefror 24. Cafwyd dros bum awr o gystadlu ac yr oedd cynulleidfada dda gydol y noson. Ceir y canlyniadau yn llawn yn rhifyn y rhifyn nesaf.

Yr Urdd: Daeth aelodau o'r Heddlu i ddau gyfarfod ym mis Chwefror i sôn am ddiogelwch ar y ffordd fawr. Cafodd y plant hŷn noson gwis a chwaraeon hefyd cyn gwyliau hanner tymor. Mae Mrs Nan

Humphreys wrthi'n brysur gyda rhai o'r aelodau yn paratoi gwaith llaw ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Pob hwyl i'r rhai fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Llanrug.

Ysgol Dolbadarn: Mae tîm rygbi'r Ysgol wedi bod yn ffilmio ar gyfer y rhaglen 'Cracabant' a fydd yn cael ei dangos ar S4C brynhawn Llun, Mawrth 6.

Bu Grug ac Anna yn yr ysgol ar brofiad gwaith o Goleg Menai.

Dathlwyd Gŵyl ddewi yn yr ysgol gyda chinio ganol dydd a disgo i'r plant gyda'r nos.

Cafodd dosbarth Mr ap Elwyn ymweliad â llyfrgell Llanberis i weithdy drama a gynhaliwyd gan Gwmni'r Frân Wen; a bu dosbarth Mrs Owen yn yr Amgueddfa yn gweld yr arddangosfa hen gelfi.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

asiantaeth



budd-daliadau

Budd-dâl Un Rhiant

Cwestiwn: Aeth fy ngŵr i ffwrdd a'm gadael y mis diwethaf. Rwyf fi felly yn gofalu am ein dau blentyn ar fy mhen fy hun. Mae'r ddau yn yr ysgol, a minnau'n gweithio amser llawn. A yw hi'n bosib i mi wneud cais am Fudd-dâl Un Rhiant?

Ateb: Gall y rhan fwyaf o bobl sy'n gofalu am blant ar eu pen eu hunain gael Budd-dâl Un Rhiant. Nid yw'r ffaith eich bod yn gweithio yn effeithio ar eich hawl i'r Budd-dâl. Caiff ei dalu ar gyfer y plentyn hynaf (neu'r unig blentyn) sy'n dibynnu arnoch. Mae'n werth £6.15 yr wythnos yn ychwanegol at y Budd-dâl Plant. Rhaid i chi fod ar wahân i'ch gŵr am 13 wythnos cyn y bydd modd i chi hawlio'r tâl hwn. Ond os bydd rhiant wedi ysgaru neu wahanu'n gyfreithlon cyn pen 13 wythnos, gellir gwneud cais am y budd-dâl ar unwaith. Dylid gofyn am daflen CH11 'One Parent Benefit' o'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol. Mae'r daflen yn cynnwys ffurflen gais ar gyfer y budd-dâl.

Dylech chi adael i'r Swyddfa Treth Incwm wybod am y newid yn eich amgylchiadau, gan fod posibl eich bod yn gymwys i dderbyn lwfans ychwanegol. Mae'n bosibl hefyd gwneud cais am Gredyd Teulu a roddai gymorth ariannol pellach i chi o'r Nawdd Cymdeithasol. Ffoniwch y Llinedd Ddi-dâl Gymraeg ar 0800 289 011 am ragor o wybodaeth.

Cwestiwn: Os yw rhiant yn cael Budd-dâl Un Rhiant ac yn gwneud cais am Gymorthdâl Incwm, a yw'r Budd-dâl Un Rhiant yn cael ei ystyried wrth benderfynu pa gymorth a roddir? A beth am Gredyd Teulu?

Ateb: Mae Budd-dâl Un Rhiant yn cael ei ystyried wrth wneud asesiad o'r Gymorthdâl Incwm sydd i'w roi. Ond nid yw'n cael ei ystyried er mwyn asesu hawl person i Gredyd Teulu.

Cwestiwn: Rwyf yn derbyn Lwfans Mam Weddw gyda chynnydd dros ddau blentyn. A yw'n bosibl i mi dderbyn Budd-dâl Un Rhiant hefyd?
Ateb: Nac ydyw. Ni thelir Budd-dâl Un Rhiant os yw person eisoes yn derbyn cynnydd ar ben rhai budd-daliadau eraill. Y budd-daliadau perthnasol yw Lwfans Mam Weddw, Pensiwn Gweddwon Rhyfel, Lwfans Gofal Analluedd a Phensiwn Ymdeol.

ARWEINIAD CYFFREDINOL YN UNIG SYDD YN YR ERTHYGL HON. NI DDYLID EI THRIN FEL DATGANIAD CYFLAWN AC AWDURDODOL O'R GYFRAITH. DYLECH GYSYLLTU Â'CH SWYDDFA NAWDD CYMDEITHASOL LEOL R MWYN TRAFOD EICH AMGYLCHIADAU CHI.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr

Fel y gŵyr llawer o ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa* mae'r Gymdeithas hon, neu'r WEA fel y'i gelwir yn aml, yn cynnig cyrsiau addysg ar gyfer oedolion yn y gymuned leol. Nod y Gymdeithas erioed fu cynnal cyrsiau mewn mannau hwylus i'r bobl leol, e.e. mewn ysgolion, canolfannau pentref, a.y.y.b.

Mae cyrsiau amrywiol ar gael ar destunau fel hanes lleol, byd natur, ysgrifennu creadigol, y gynghanedd, llenyddiaeth, arlunio, cerddoriaeth, ffotograffiaeth, gloywi iaith, ac eraill. Ac wrth drefnu'r cyrsiau hyn byddwn yn ceisio ymateb i'r galw lleol. Mae'n bwysig felly fod pobl yn cysylltu â ni gyda'r wybodaeth

am yr anghenion lleol. Cynhelir nifer fawr o'r cyrsiau gyda'r nos, ond erbyn hyn hefyd mae cryn alw am gyrsiau dydd, yn enwedig lle mae canolfan hwylus ar gael. Mae rhwydwaith o gyrsiau yn cael eu cynnal dan nawdd y Gymdeithas drwy ogledd Cymru, ynghyd â nifer o gyrsiau undydd a phenwythnos, ymweliadau, a.y.y.b.

Os oes rhai o'r darlennwyr yn awyddus i ni gynnal cwrs yn eu hardal, cwrs o 5, 8, 10 neu fwy o gyfarfodydd efallai, o fis Medi nesaf ymlaen, neu os oes rhywun eisau rhagor o fanylion, cysylltwch ag **Ifor Baines (Athro/Drefnydd)**, Ffôn: (01286) 881328.

Ymchwil i Sioe am Gaernarfon

Mae Cwmni Tref Caernarfon wedi derbyn grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru i wneud ymchwil ar sioe neu gyflwyniad dramatig am dref Caernarfon.

Gwneir yr astudiaeth gan Mr Wyn Williams, fu'n gysylltiedig â'r theatr broffesiynol Gymraeg ers dechrau'r 80au ac sydd yn byw yng Nghaernarfon ers rhai blynedd.

Bydd ei waith yn cynnwys archwiliad o themâu posib ar gyfer y sioe ynghyd â chreu cysylltiadau â darpar bartneriaid yn y dref a'r cylch, gan gynnwys Theatr Bara Caws.

'Cam cyntaf yw'r ymchwil a'r bwriad yw crisialu syniadau a chynnig ffordd ymarferol ymlaen, gyda golwg ar lwyfannu cynhyrchiad

ymhen dwy neu dair blynedd efallai,' yn ôl llefarydd ar ran Cwmni Tref Caernarfon.

'Mae'n ddatblygiad cyffrous sydd o berthnasedd i'r dref a'r gymuned. O ystyried cyfoeth cynhenid Caernarfon, o ran ei hanes a'i thalentau, mae lle i fod yn hyderus iawn yn ei gylch,' meddai.

Mae Mr Wyn Williams yn annog y sawl sydd am gyfrannu syniadau at y fenter i gysylltu ag o'r Caernarfon 673091. Mae'n arbennig o awyddus i glywed gan rai sydd â straeon am y dref.

Am fanylion pellach cysyllter â Chwmni Tref Caernarfon. Ffôn: (01286) 673113.



Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn/Ffacs: 870200



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

ANTUR PADARN

Galw am Ymgyrch

Cyhoedduswydd Mawr

Trafodaeth ar 'Gynllun Leader 2' oedd un mater o dan ystyriaeth mewn cyfarfod o'r Antur a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 7 Chwefror, yn Ysgol Gynradd, Penisarwaun. Fel Is-gadeirydd 'Leader 2' adroddodd Glyn Tomos fod trafodaethau wedi cychwyn ar gael y Cynllun yn weithredol. Fel y cam cyntaf dywedodd y bydd yn pwyso i weld ymgyrch gyhoeddus-rwydd mawr yn cael ei chynnal ledled Arfon i hysbysu'r cyhoedd o'r Cynllu a'r math o prosiectau fydd yn debyg o dderbyn cefnogaeth ariannol.

Mynegwyd cefnogaeth unfrydol i argymhellion Dinasyddion Gwynedd ynglŷn â Canllawiau Drafft ynghylch Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac fe gytunwyd i anfon llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo sicrhau y bydd Cadeirydd newydd Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg. Diolchwyd i Gyngor Cymuned Llanberis am eu rhodd ariannol hael i'r Antur. Adroddwyd i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gyfarfod â'r Dr Adrian Phillips, Cyfarwyddwr Canolfan Datblygu Adnoddau Naturiol, Prifysgol Delyn, tra roedd ar ymweliad byr â Bangor yn ddiweddar.

Mynegwyd cydymdeimlad â Howard Huws, yr Ysgrifennydd, yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Delyth Tomos ar ei llwyddiant diweddar gyda'r Brifysgol Agored; llongyfarchwyd hefyd y Cynghorydd Ken Jones, Llanberis, ar ddod yn daid yn ddiweddar.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **nos Iau, 16 Mawrth, am 7 o'r gloch yn Ysgol Gynradd Penisarwaun.** Bydd y cyfarfod, fel arfer, yn agored i bawb.

Wythnos i Ddathlu Degfed Pen-blwydd GISDA

6-10 Mawrth 1995

Mae GISDA, sef Grŵp Ifanc Sengl Digartref Arfon, yn cynnal wythnos o weithgareddau yn ystod y cyfnod uchod i ddathlu eu degfed pen-blwydd ac i ledaenu ymwybyddiaeth o'u gwaith yn ogystal â thynnu sylw at eu pryderon ynglŷn â'r Ddeddf Digartref newydd.

Fe fydd trigolion hostel GISDA, aelodau pwyllgor GISDA ac unigolion cefnogol eraill yn gorymdeithio dros gyfnod o bum niwrnod o Gaernarfon i Bwllheli, Blaenau Ffestiniog a Bangor cyn terfynu y dathliad yn ôl yng Nghaernarfon yng nghwmni Dafydd Iwan a'i Fand ar y noson olaf. Yn ogystal â cherdded o fan i fan bydd y gorymdeithwyr yn cysgu allan drwy'r nos o nos Lun 6ed hyd nos Iau 9fed.

Ymhlith yr adloniant sydd yn cael ei drefnu ar gyfer yr wythnos bydd cyfraniadau gan Bryn fôn, Geraint Lovgreen, Moniars, Blys, ac hefyd rhifyn arbennig o 'Codi Cwestiwn' gyda Dafydd Wigley o Glwb Rygbi Caernarfon ar nos Wener, 10 Mawrth.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Wenna Parry Williams, GISDA ar (01286) 671153.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cofion: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i nifer o'r pentrefwyr na fu'n dda eu hiechyd yn ddiweddar. Bu Mrs Betty Owen, Tros yr Afon; Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc; Mr Hugh Williams, 4 Tai Orwig; Mrs Anita Long, Tan yr Onnen; a Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian, dan archwiliadau meddygol a thriniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd yr oedfaon Sabothol fel a ganlyn yn ystod mis mawr:

5: Mr Caradog Hughes, Caeathro (am 10 o'r gloch)

12: Mr Iolo Llywelyn, Llanrug (5.30)

19: Parchg James Clarke, Y Groeslon (10)

26: Mr William Lloyd Davies, Bangor (5.30).

Bydd yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch ar

y pedwar Sul.

Diolch: Dymuna Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r dymuniadau da iddo yn dilyn ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen yn y Ffestri nos Lun, Chwefror 20fed, dan lywyddiaeth Mrs Carol Houston. Mrs Jean Owen o Gaernarfon oedd y wraig wadd a threuliwyd amser difyr yn ei chwmni yn sôn am ei gwaith yn ymarfer aromatherapi. Diolchwyd iddi gan Miss Alice Williams. Darparwyd y baned gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Euronwy Roberts. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Jennie Hughes, gan Miss Alice Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 20fed.

Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn 5 - 12 Awst 1995

Dymuna trefnydd yr Eisteddfod dynnu sylw darllenwyr yr *Eco* at nifer o faterion sy'n ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn a gynhelir ar gyrion tref Abergele:

Dyddiad cau cystadlaethau cyfansoddi — mewn un man yn y Rhestr Testunau nodir hwn fel Mai 1af tra ym mhobman arall fel Ebrill

1af. Carwn nodi mai Ebrill 1af yw'r dyddiad i'r holl waith cyfansoddi.

Stiwardiaid — byddem yn falch iawn o dderbyn ceisiadau oddi wrth unrhyw berson fyddai'n medru stiwardio am ddiwrnod neu fwy.

Maes Carafanau — mae hwn mewn lle arbennig o hwylus, y maes nesaf i'r Eisteddfod heb orfod croesi'r ffordd o'r naill i'r llall. Mae'r ffurflenni cais yn barod.

Mynedfeydd — byddem yn hynod falch o dderbyn enwau pobl sy'n barod i weithio wrth y mynedfeydd neu yn y bythau talu.

Tocynnau — mae galw mawr am docynnau. Cynghorwn chi i brynu tocynnau yn enwedig os ydych am fynd i'r Pafiliwn ac hefyd i'r Gymanfa Ganu ar Awst 13. Mae rhaglen y Gymanfa yn gwerthu'n dda.

Mai 1af — dyna yw'r dyddiad cau i gystadleuwyr y cystadlaethau llwyfan. Ydych chi am gystadlu? A yw eich côr neu barti am gystadlu? Edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn Abergele rhwng 5ed a'r 12fed o Awst.

Os ydych am fwy o fanylion am unrhyw beth, yna cysylltwch â'r Swyddfa yn 25 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn. Ffôn: (01492) 535155.

Siop Trin Gwallt SANDRA Stryd Fawr DEINIOLEN Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Cynigion agor arbennig
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis
871047

Alwyn a Sarah Jones


RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Eglwys Sant Gabriel: Nos Fawrth, 14 Chwefror, daeth aelodau yr eglwys ynghyd â rhai gwestieon i'r Ganolfan i groesawu y Parchg a Mrs Philip Hughes i'n plith. Roedd y gwagedd wedi paratoi lluniaeth ardderchog a chafodd pawb noson bleserus iawn. Dymuna'r wardeiniaid ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud y noson yn llwyddiant.

Undeb y Mamau: Nos Lun, 6 Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug. Dechreuwyd trwy weddi. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mrs Edwards, Mrs D. Jones a Miss G. Griffiths. Darllenwyd y cofnodion o'r pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

Y gŵr gwadd oedd Mr Bert Thomas, Llanberis, a chafwyd ganddo sgwrs am y Crynwyr, ac fe fwyhawyd y noson yn fawr iawn. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Brett Jones a Mrs M. Roberts a diolchwyd iddynt ac i Mr Thomas gan Mrs M. Roberts. Rhoddwyd y rafflau gan Mrs S. Edwards a Mrs B. Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs G. Roberts a Mrs E. Taylor. Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi. Bydd y cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth.

Yr Ysgol Feithrin: Nos Wener, 10 Chwefror, cynhaliwyd noson Bingo yn yr Ysgol tuag at gronfa'r Ysgol Feithrin. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at y noson. Diolch yn arbennig i Mrs Shân Jones, Dôl Afon, am drefnu'r noson ac i Mrs Enid Price am weiddi'r rhifau. Yr oedd yn noson arbennig o lwyddiannus ac fe wnaed elw o

£169.16. Enillwyd y raffl gan Helen Thomas, Mrs Mair Hughes, Mrs Rowlands, Mrs Foulkes, Mrs Betty Jones, Mrs Sioned Jones, Keith Williams, Elfed Jones, Joyce Jones, Diana, Llanberis, Jean Coull, Ffion Jones, Mrs Mair Hughes, Tommy Morris.

Ysgol Cwm-y-glo: Yn ystod y mis bu Mis Sharon Michelle Jones o Lanrug yn nosbarth y babanod ar brofiad gwaith. Diolch am ei chymorth parod a dymunwn yn dda iddi ar ei chwrs yng Ngholeg Menai.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Ionawr oedd Mrs Jean Hughes a Mrs Elizabeth Hughes — y ddwy o Gwm-y-glo.

Mae'n braf bob amser cael mynd a phlant ar ymweliad sy'n ymwneud â'u gwaith ysgol. Y tro hwn cafodd yr Adran Iau groeso arbennig ar aelwyd yng Nghwm-y-glo, sef cartref hen nain a thaid Karl Jones, blwyddyn 4. 'Y Cartref' yw thema blynyddoedd 3 a 4 ac fe gawsant weld hen ddresel dderw a honno'n llawn o lestri gleision yng nghartref Mr a Mrs Myrddin Owen.

Cawsom hanes eu plentyndod cynnar, arferion y cartref a chwarae. Roedd cof y ddau fel grisial a chawsom hanesion difyr am yr ysgol, sef thema blynyddoedd 5 a 6, a hen siopau y pentref. Cyn gadael cafodd pob plentyn hen geiniog a darn chwe cheiniog i gofio am yr ymweliad arbennig hwn. Diolch o galon i chwi Mr a Mrs Owen am agor drws eich cartref i ni a'n tywys yn ôl i'r gorffennol pell.

CLWB ERYRI

Cyfarfu'r Clwb ar nos Wener, Chwefror 3, yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Er bod amryw o'r aelodau wedi bod yn wael, pleser oedd gweld Bardd y Clwb (R. Gwynn Davies) yn bresennol ac wrth ei waith a chlywed bod Bobby Williams yn gwella. Siaradwr y noson oedd Geraint Lloyd Owen a rhoddodd inni bortread bywiog a byrlymus o'i ffrind, ei gymydog a'i arwr, Bob Lloyd (Llywyd o'r Bryn). Llywiwyd y noson gan y Parchg Gwynfor Williams a diolchwyd

i'r siaradwr gan y Dr Eurwyn Lloyd Evans. Wrth gloi'r noson, yn absenoldeb Evan Parry a oedd dan lach y fflw, cyfeiriodd ei ddirprwy, Wyre Thomas, at y cyfarfod nesaf, sef Cinio Gŵyl Ddewi ar nos Wener, Mawrth 10 (7.30 ar gyfer 8 o'r gloch) pryd y bydd Guto Roberts (Guto Rhos-lan) yn siaradwr gwadd. Penderfynwyd hefyd godi pwyllgor bychan o dan arweiniad Rol Williams i drefnu noson yng nghalendr y Clwb i ddathlu deugain mlynedd ei fodolaeth.

IOLO HUWS-ROBERTS



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Canolfan Gymdeithasol: Mae pwyllgor codi arian wedi'i sefydlu i hybu gweithgareddau pentrefol fydd yn llenwi'r gronfa ariannol sydd ei hangen i gyrraedd y breuddwyd o gael Canolfan i'r pentref. Mae aelodau'r pwyllgor wedi cyfarfod deirgwaith eleni, ac wedi dechrau ar gynllun o drefnu gweithgareddau misol, gyda gwahanol fudiadau a chymdeithasau o fewn y pentref yn gofalu am gynnal un gweithgaredd o fewn y flwyddyn. Ym mis Chwefror cynhaliodd y Clwb Ieuencid daith gerdded nodedig gyda chyfran o'r arian yn cael ei gyflwyno i Gronfa'r Ganolfan. Yn ystod mis Mawrth bydd y pwyllgor codi arian eu hunain yn cynnal **Noson Goffi yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, nos lau, 16 Mawrth am 7.** Bydd byrddau gwerthu yno hefyd.

Ar nos lau, 9 Mawrth am 7.30 yn y Sefydliad Coffa, bydd cyfarfod pellach o'r pwyllgor codi arian. Taer erfynnir ar i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynnig help llaw gyda'r fenter i fynychu'r cyfarfod hwn.

Yn ystod y mis hefyd, bydd cyfarfod yn cael ei alw i lunio ceisiadau am gymorthdaliadau ariannol oddi wrth wahanol gronfeydd megis Y Loteri Genedlaethol, Cronfa'r Millennium a'r Sefydliad dros y Celfyddydau a Chwaraeon. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu gwneud yn ychwanegol i'r cais am grant gan Y Swyddfa Gymreig.

Plaid Cymru: Ffotograffiaeth, cwildynnu (quilling), gemwaith arian ac arlunio, dyna gynnwys arddangosfa amrywiol o hobiau aelodau a chyfeillion Cangen Llanrug nos Fercher, Chwefror 8fed, pan ddaeth Gwyndaf Hughes, Julie Jones, Phyllis Ellis a Myfyr Parry i ddangos a sôn am eu diddordebau. Diolchodd y cadeirydd, Berwyn Parry Jones, i'r pedwar am noson ddiddorol, ac i Megan Thomas, Gregynog, am roi'r te a'r bara brith. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwladys M. Jones, a gwobrwyon y Clwb Cant gan 1, Olwen Humphreys; 2, Elen George, Brynrefail.

Nos Fercher, Chwefror 15fed, roedd Neuadd Ysgol Brynrefail yn llawn i fwynhau drama Twm Miall, 'Cyw Dôl' gan Gwmni Bara Caws.

Trefnwyd y noson gan y Gangen.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi nos Fercher, Mawrth 1af, am 7 o'r gloch yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Bydd bwyd basged, a thwmpath dawns o dan ofal Elfed Roberts a'r grŵp 'Aderyn Prin'.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Chwefror 14eg, gyda Menna Williams yn y gadair.

Darllenwyd llythyr o ddiolch gan Glwb Blodau'r Grug yn dilyn casgliad a wnaed gan y gangen. Gwnaed trefniadau ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi yn y Newborough, Bontnewydd, ac ar gyfer rhedeg y caffi yn Ysgol Brynrefail yn ystod Eisteddfod Cylch yr Urdd ar ddydd Sadwrn, Mawrth 4ydd, ac fe werthfawrogi unrhyw help neu gyfraniad o nwyddau.

Diogelwch yn y cartref oedd testun y noson a chyflwynwyd argymhellion buddiol iawn gan Alan Williams, un o swyddogion Awdurdod Tân Gwynedd. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gael larwm tân ym mhob cartref ac yn ddelfrydol blanced tân a/neu diffoddwr tân. Dylai pob aelod o'r teulu wybod y ffordd gyntaf allan o'r tŷ mewn argyfwng. Dangosodd fideo bwrpasol a gobeithiai y byddai pawb yn cofio y tri gorchymyn — *ewch allan; galwch NI allan; arhoswch allan*. Diolchwyd iddo gan Nan Humphreys. Rhoddwyd y te gan Beryl Thomas, Joan Griffith a Gwen Jones. Enillwyd y raffl gan Nan Humphreys.

Diolchiadau: Dymuna Mrs Bet Jones, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Len dros tymor y Nadolig. Diolch hefyd i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd hi ar achlysur ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch i Betty am y parti ac i Joyce a Jean; ac i Mrs Dilys Jones am gael defnyddio canolfan Hafan Elan.

Dymuna Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 85 oed. Diolch i Mrs Arthur Jones a'r ffrindiau am y te parti. Diolch yn fawr iawn.

Llongyfarchiadau i Mrs M. Williams, Bron Eryri, Ffordd yr Orsaf, ar ddod



Rhai o aelodau Clwb Ieuencid Llanrug yn barod i gychwyn ar eu taith gerdded nodedig i godi arian ar gyfer y Clwb a'r Ganolfan newydd yn Llanrug.

yn nain ddwywaith yn ddiweddar. Ganwyd merch i Bryn a'i wraig, Elin Bryn, a hefyd merch i Gwen a'i gŵr, sef Sian Eirian.

Llongyfarchwn hefyd Selwyn a Catherine Morris ar ddod yn daid a nain i blentyn bach Susan a'i gŵr. **Marwolaeth:** Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Ragfyr 12fed bu farw Miss Annie Bains Griffith, 4 Stad Minffordd (London House gynt), yn 89 oed. Merch ydoedd i'r diweddar Mr a Mrs Dafydd Haydn Griffith, yn enedigol o'r ardal a threuliodd y rhan fwyaf o'i hoes o fewn ei milltir sgwâr. Bu'n athrawes ymroddedig am flynyddoedd lawer yn Swydd Efrog, fel prifathrawes yng Nghwm Stradllyn, a rhan olaf ei gyrfa yn Ysgol Gynradd Llanrug. Cyn ei goddiwedd â chystudd bu'n aelod ffyddlon o'r Capel Mawr.

Bu'r angladd ddydd Sadwrn, 17 Rhagfyr, cyhoeddus yng Nghapel y Rhos a phreifat yn yr Amlsgofa. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Pritchard, Llanberis. Cynrychiolwyd

Capel y Rhos gan Mr John Wyn Owen a Mr Iolo Llywelyn. Darllenwyd rhan o'r Ysgrhythur gan Mr Iolo Llywelyn, a thalwyd teyrnged i Miss Griffith gan Miss Megan Humphreys. Yr organyddes oedd Mrs Mair Hughes. Cydymdeimlwn a'r teulu yn eu galar.

Menter Newydd: Ar y 26ain o Chwefror bydd Gwilym Jones, Llwyfor, yn agor busnes newydd y tu ôl i siop trin gwallt ei wraig, Elaine. Menter newydd yn gwerthu pysgod dŵr oer a physgod trofannol ydyw a dymunir pob llwyddiant iddo.

Clwb Ieuencid Llanrug: Bu aelodau o'r Clwb ar daith gerdded bore Sul, 19 Chwefror, a chasglwyd dros £200 tuag at y Clwb a Chanolfan newydd i'r pentref. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Yn ystod mis Chwefror bu'r aelodau yn gwneud potiau crochenwaith a gwaith ar gyfer Eisteddfod Clybiau Ieuencid Gwynedd. Cawsom drip i'r Rhyl i Fowlio Deg.



NOSON GOFFI
gyda bryddau gwerthu a raffl
i godi arian tuag at sefydlu'r Ganolfan
newydd yn y pentref.

yn Ysgol Gynradd Llanrug
nos lau, 16 Mawrth am 7 o'r gloch

Tâl Mynediad 50c Plant 20c (wrth y drws)

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr
650552

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Genedigaeth: Newyddion da o lawenydd mawr, dyna yn sicr ddaeth i ran Shirley a Colin Humphreys, Gwêl yr Wyddfa, ar enedigaeth merch fach, Mererid Elen, ar 9fed o Ionawr yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchiadau mawr iddynt fel teulu. Peidiwn ac anghofio llongyfarch taid Mererid, sef Derek Williams o Bron Eilian, ar ei benodiad fel cadeirydd newydd Undeb Amethwyr Cenedlaethol (Canol Gwynedd). Pob dymuniad da iddo yn ystod ei dymor yn y swydd.

Dymuniadau da i Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ac i Mr Derek Williams, Bron Eilian, y ddau wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ond sydd adref erbyn hyn. Daliwch i wella.

Yr un yw ein dymuniadau i bawb arall sydd ddim wedi bod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

Trefnu Nosweithiau: Yn dilyn yr apêl a ymddangosodd yn yr 'Eco' cyn y Nadolig fe ddaeth unarddeg o bobl i'r cyfarfod yn y Ganolfan ar nos Fercher, 4 Ionawr, i weld os oedd modd trefnu nosweithiau yn y pentref. Cafwyd trafodaeth fuddiol a diddorol dros ben gyda phob yn cael cyfle i fynegi barn. Fel canlyniad fe gynhaliwyd noson gymdeithasol yn y Ganolfan ar nos Fercher, 8 Chwefror, gyda Glyn Tomos yn arwain. Gofynnwyd ymlaen llaw ar i bawb ddod a hen luniau, ysgrif neu declyn, o ardal Dinorwig gyda hwy ac yna dros banded o de a bisgedi cafwyd cyfle i ddyfalu lluniau o beth neu pa declyn oeddynt. Cafwyd noson hynod o ddiddorol a phawb yn cael cyfle i hel a rhannu atgofion ac roedd yn braf gweld rhai o'r bobl ifainc yn bresennol ac yn cofnodi yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Diolch i bawb ddaeth a lluniau neu ysgrif papur newydd gyda hwy; i Miss Ellen Wyn Jones am chwarae'r tâp oedd yn cynnwys rhestr hir a diddorol am y nifer a'r math o siopau oedd yn Ninorwig ers talwm; i Sarah Wood am ddod a hen bosteri a arferai cael eu harddangos yn siop Fron Heulog; i Ivor Phillips am y tâp oedd yn cofnodi cyfarfod anrhegu Mr Owen Williams ar ei ymddeoliad fel prifathro Ysgol Dinorwig yn y saithdegau; ac i Mrs Alice Griffiths am gasgliad o luniau a chopïau o bapurau newydd yn cofnodi hanesion difyr. Y teimlad cyffredinol

ar y diwedd oedd i'r noson fod yn un lwyddiannus iawn. Gobeithio y bydd mwy o nosweithiau tebyg yn cael eu cynnal yn y dyfodol agos.

Mainc Newydd: Mae mainc eistedd wedi ei gosod ar lain o dir ar ochr ffordd wrth ymyl Pen y Bryn, Fachwen. Mae hyn yn ganlyniad i'r cydweithio cloës rhwng Menter Fachwen (perhnogion y tir dan sylw), Cyngor Cymuned Llanddeinolen, a Chyngor Bwrdeistref Arfon a fu yn gyfrifol am ei gosod. Felly, chwi gerddwyr fe fydd lle yn awr i chwi gael pum munud a mwynhau y golygfeydd gwyth wrth gerdded ar eich ffordd i fyny neu i lawr Fachwen.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn â Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ar golli ei chwaer annwyl, Mrs Mary Thomas, ar 12 Ionawr, yn dawel yng Nghartref Preswyl St. Teilo, Bethel, yn 90 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Nellie V. Pritchard, Pen Dyffryn, yn ei prhofedigaeth o golli modryb annwyl, sef Mrs Ellen Lizzie Griffiths, a fu farw ar y 5ed o Chwefror yng Nghartref Nyrso Penisarwaun yn 87 oed.

Diolchiadau

Dymuna Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ward Aran, Ysbyty Gwynedd, ac wedi iddo ddod adref. Diolch i'r meddygon ym Meddygfeydd Deiniolen a Llanberis am eu gofal arbennig. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Margaret J. Jones, Foel, ddiolch i'w theulu a chymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra y bu yn Ysbyty Llandudno. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, a'r teulu oll ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mrs Mary Thomas, Deiniolen, chwaer annwyl a modryb hoff (gynt o 7 Vaynol Terrace, Deiniolen). Diolch am yr ymweliadau, cardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn ac am y rhodd deilwng o £265 a dderbyniwyd tuag at Gapel Cefnywaun. Diolch o galon i bawb.

Llongyfarchiadau i Mrs Nellie Valmai



Criw o chwarelwyr ar achlysur ymddeoliad gŵr o Seion. Oes 'na rywun yn cofio'r achlysur, neu yn adnabod rhai sydd yn y llun?

Pritchard, Pen Dyffryn, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gobeithio i chwi gael diwrnod pen-blwydd wrth eich bodd.

Dim Sôn Amdanom: A fu i chwi deimlo'r golled nad oedd newyddion Dinorwig wedi ymddangos yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. Er bod y

newyddion wedi eu paratoi a'u rhoi yn nwylo'r wasg ni fu iddynt weld golau ddydd. Dyma'r tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd — sydd yn dangos pa mor dda mae'r gwaith o roi cynnwys yr Eco at ei gilydd bob mis yn cael ei wneud.

TRÊN YR WYDDFA

Difyr iawn oedd darllen erthygl Rol Williams yn yr Eco am drên bach y Wyddfa. Mwynheais hefyd ei sgwrs ar y radio ar y pwnc. Cofiais fod gennyf luniau o'm nain yn mynd i ben yr Wyddfa ar y trên, tua 1925. Diddorol yw sylwi fod pawb yn gwisgo eu dillad gorau gan ei fod yn achlysur arbennig.

Ni fu fy nhad erioed ar ben yr Wyddfa er iddo fyw a gweithio yn ei chysgod gydol ei oes. Ond, cofiaf ei fod yn cyfarfod y trên ddwywaith yr wythnos er mwyn anfon cig i weithwyr y gwesty a fyddai'n aros ar y copa drwy'r wythnos. Un o'r rhain oedd Lowri o'r Fach-wen.

Cerddodd fy ngŵr i ben yr Wyddfa y llynedd ac fe synnodd yn fawr na werthir dim yn y siop ar y copa yn yr iaith Gymraeg — digon o betheuach efo 'I climbed Snowdon' wrth gwrs. Rhywbeth efo geiriau Cymraeg arno oedd Ceri'r ferch ei eisiau i fynd yn ôl i Fanceinion gyda hi, ond adref yn waglaw yr aeth. Cefais innau'r fraint, yn ddiweddarach yn y

flwyddyn, i deithio i'r copa gyda chriw hapus Eglwys Llanberis, yn y niwl a'r glaw, ond yr un oedd y stori y pryd hynny. Digon o waith y byddai rhywun yn methu cael anrhegion yn yr iaith frodorol mewn siop ar unrhyw lethr mynydd mewn rhan arall o Ewrop.

MARGARET WYN ROBERTS, Caernarfon



1925: Cychwyn i ben yr Wyddfa, Mrs Jones, Sir Fôn; Emrys ac Elen Roberts, Fach-wen.

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr PORTHAETHWY
Ffôn: (0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU - TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Diolch: Dymuna Goronwy Jones, Y Rhos, ddiolch o galon am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Clwb 100 yr Ysgol: Enillwyr gwobrau Chwefror oedd £20: Mrs Rhiannon Williams, Rhos-lan, Ffordd Bethel, Caernarfon (81); £15: Mrs Mair Read, 5 Cefn Cynrig (120); £10: Iolo Davies, Glan Gors (4); £7: Gwenan Williams, Arfon House (97); £5: Sion a Mair Williams, Pengwern, Y Ddôl (110). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn yr ysgol gynradd gyda Glenys Griffiths yn llywyddu. Croesawyd y gŵr gwadd, Arwel Jones, achafwyd noson ddiffr yn ei gwmni yn rhoi hanes tu i ganeuon Hogia'r Wyddfa. Diolchwyd iddo gan Eirlys Williams. Dymunwyd gwellhad buan i Sheila Roberts, a Siôn, mab Deilwen Hughes. Y gwestwragedd oedd Edwina Morris, Ann Lewis a Margaret Williams, ac enillydd y raffl oedd Glenys Griffiths.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria y mis nesaf, yng nghwmni Geraint Lloyd Owen. Nos Iau, Mawrth 16, bydd rhai o'r aelodau yn mynd i Landudno i Fowlio Deg.

Derbyn Aelodau Newydd: Yn oedfa bore Sul, Chwefror 26, derbyniwyd Gwenan Elis, Catrin Angharad Hughes a Llinos Morris yn gyflawn aelodau yn Y Cysegr. Gweinyddwyd y Cymun gan y gweinidog, y Parchg W. R. Williams.

Ailagor Capel y Cysegr: Wrth chwilota am hanes ei deulu yn yr Archifdy yn Llangefni, daeth David Williams, Tŷ Capel Cysegr, ar draws yr hanes canlynol — yn rhifyn Môn o'r *Herald Cymraeg*, 24 Awst 1937 — am ailagor y capel:

Dydd Sul diwethaf ail agorodd yr eglwys uchod ei haddoldy ar ôl ei adnewyddu. Fel y 'Capel Newydd' yr adwaenir ef hyd heddiw er ei fod bellach wedi myned yn oedranus, oherwydd adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1864.

Mae'n debyg y parheir i'w alw felly oherwydd mai ef oedd y capel olaf i gael ei adeiladu yn y pentref.

Rhoddodd yr eglwys ei bryd ar ei adnewyddu, ac ni fu pall ar ei hegnion a'i hymdrechion i sylweddoli ei delfryd. Coronwyd eu hymdrechion â llwyddiant mawr ac erys y Saboth diwethaf, sef dydd ei agor, yn ddydd i'w gofio yn hanes

yr eglwys. Y mae'r 'Cysegr' presennol yn hardd iawn, yn addurn i'r Cyfundeb y perthyn iddo ac yn dwyn mawr glod i'r cynllunydd, Mr R. J. Hughes, Llanfairfechan, ac i'r adeiladwyr Mri G. & J. P. Gregory, Caernarfon. Telir gwrogaeth iddynt yn gyffredinol am eu gwaith.

Gwnaed darpariaeth i'w dwymo yn y dull diweddaraf, sef gyda thrydan. Ofer fydd ceisio gwadu hawl y Cyfundeb i feddiant o'r Cysegr newydd, oherwydd y mae arwyddlun y Cyfundeb yn ddiogel ddigon.

A oes rhai sy'n cofio mwy o hanes yr adnewyddu?

Y Gymdeithas Lenyddol: Yn ddiweddar cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni y Prifardd Ieuan Wyn. Rhoddodd inni gefndir ei Awdl fuddugol, yn Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog, 'Llanw a Thrai' sydd yn sôn am wagio tŷ taid a nain y bardd. Diolchwyd i Ieuan Wyn gan Richard Lloyd Jones. Bydd y Gymdeithas yn cynnal eu cinio Gŵyl Ddewi ar nos Fawrth, 14 Mawrth yn Nhŷ Golchi.

Yr Urdd: Yn ogystal â gweithgareddau wythnosol mae aelodau'r gangen yn brysur yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfodau Cylch, sydd i'w cynnal ddechrau mis Mawrth.

Cynhelir Noson Goffi ar nos Iau, 2 Mawrth, pryd y bydd cyfle i glywed a gweld y plant yn perfformio cyn mynd i gystadlu. Dewch i gefnogi ieuenctid yr Adran. Pris mynediad fydd 50c.

Aelwyd yr Urdd: Daeth llwyddiant i aelodau'r Aelwyd yn ddiweddar mewn pencampwriaeth pêl-droed pump-bob-ochr i adrannau pentref o dan 15 oed a gynhaliwyd yn Llanrwst. Aelwyd Bethel oedd yn fuddugol gan guro tîm Llanrwst o un gôl i ddim yn y rownd derfynol. Byddant yn cynrychioli'r Sir yn Aberystwyth ym mis Ebrill. Aelodau'r tîm yw: Meilyr Emrys, Dylan Davies, Mark Williams, Bryn Williams, Irfon Hughes a Dewi Griffiths. Diolch i Jim a Jâms am ofalu amdanynt.

Bu ugain o aelodau'r Aelwyd am benwythnos yn Nhresaith ar ddechrau gwyliau'r hanner tymor. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn gan gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ogystal â chael diwrnod yn Llangrannog. Diolch i Gwen, Wendy, Jim a Jâms am wneud yr holl drefniadau.

Ffair Ffwlbri Ebrill: Ar ddydd cyntaf

Cantorion Elidir: Yn ddiweddar daeth y cantorion ynghyd i Westy Rhaeadr Aber i ddatlu diwedd tymor prysur. Bu 1994 yn flwyddyn arbennig iawn i'r Cantorion gyda'r ddrama gerdd 'O Gaethiwed i Ryddid' yn binacl y flwyddyn.

Croesawyd pawb i'r noson gan Siân Hughes, y cadeirydd, a diolchodd i bawb a fu'n gweithio tuag at llwyddiant y Cantorion. Diolchodd i Robin Jones, yr arweinydd, am roi i'r Cantorion y cyfle i berfformio gwaith o safon uchel a hynny gyda phlant yr ysgol gynradd a phobl ifainc talentog yr ardal.

Cyflwynwyd rhodd o flodau i'r gyfeilyddes, Mrs Menna Williams, mewn gwerthfawrogiad o'i gwaith meistrolgar.

Wedi'r swper blasus cyflwynwyd dwy anrheg arbennig: mae Robin bob amser yn annog y Cantorion i wenu wrth ganu a phan fydd yn gwisgo ei anrheg 'tei-bo' llachar fe fydd pawb yn siŵr o ymateb gyda gwên! Bu'r Parchg W. R. Williams yn garedig yn caniatáu i'r Cantorion ymarfer yng Nghapel Bethania, Y Felinheli, ac ers i ni fod yno rhai misoedd yn ôl ni fu taw arno yn sôn



Robin Jones â'i dei-bo newydd.

fel y bu i sedd doiled gael ei thorri gan rywun. Felly mewn gwerthfawrogiad am gael defnyddio'r adeilad — ond yn bennaf er rhoi taw ar y Parchedig — fe gyflwynwyd rhodd o sedd WC i WR.

Ar Ebrill 20fed, bydd y Cantorion yn cychwyn am lwerddon i'r Wyl Geltaidd yn Tralee. Maent yn brysur yn ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth yno a mawr obeithiwn y byddant yn dychwelyd i Fethel yn fuddugoliaethus.



WR a'i sedd WC.

Ebrill bydd Cantorion Elidir yn cynnal ffair Ffwlbri Ebrill yn y Neuadd, i gychwyn am 2 o'r gloch. Bydd Seindorf Deiniolen yno i'n diddori ac hefyd injan dân i'r plant. Bydd yno nifer fawr o stondinau, chwaraeon, castell bownsio, ac arddangosfa gwisg ffansi.

Pwrpas y ffair yw codi arian tuag at gostau'r Cantorion. Hyd yma fe drosglwyddwyd dros £7,000 ganddynt i achosion teilwng yr ardal heb gadw dim yn ôl iddynt eu hunain.

Mae ymateb pobol yr ardal i weithgareddau Cantorion Elidir wedi bod yn hynod a hyder y cawn eich cefnogaeth i'r ymdrech arbennig hon.

Ar yr 2il Ebrill cynhelir cyngerdd yng nghapel y Cysegr, sef 'Brethyn Cartref' pryd y bydd plant yr ysgol gynradd a nifer o bobl ifainc talentog y pentref yn ein diddori. Byddai'n braf cael gweld y capel yn llawn unwaith eto!

Gwerthir tocynnau raffl a thocynnau i'r cyngerdd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis Ionawr — £20: Mrs M. B. Garnett, 1 Rhos Alun, Saron (19); £10: Mr Alwynne M. Jones, 10 Y Ddôl (159); £5 yr un: Mr Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (126); Mr Samuel H. Davies, Hafan Deg (138); Mr Hywyn Roberts, Noddfa (128); Mrs

Ellen Jones, Glas-ynys, Tan-y-buarth (212); Mr Emllyn Hughes, Bethlyn, Tan-y-ffordd (58); Mrs M. D. Williams, Awelon, Erw Bian (174); Mr Idris Jones, Tyddyn Oer (115); Mr Howell Owen, Cremlyn (143).

Crafu Pen: Llongyfarchiadau i dîm cwis o dan 15 oed y Clwb Ieuenctid ar eu llwyddiant yn cyrraedd y rownd gnedlaethol. Aelodau'r tîm yw Arwel Elis, Rhodri Roberts, Darren Jones a Rhys Lloyd Jones. Enillwyd cystadleuaeth cylch Arfon o un marc yn erbyn Clwb Pen-y-groes. Yna, enillwyd pencampwriaeth Gwynedd gan drechu pedwar tîm arall yn Llanduno. Ni wyddys eto ble fydd y rownd derfynol, ond efallai y byddi taith i'r 'sowth'! Pob lwc iddynt.



Aelodau Tîm Cwis dan 15 oed y Clwb Ieuenctid.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
 **BANGOR**
354646

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Mae Mrs Megan Williams, Dwyfor, wedi cael damwain yn ei chartref. Treuliodd amser yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri ond yn awr wedi mynd i Blas Pengwaith. Brysiwch wella.

Llawenydd mawr oedd gweld Siôn, mab bychan Colin ac Ann Saynor, wedi cyrraedd i'w gartref yn 2 Tai Tanycoed. Mae'n braf cael babi newydd yn y rhes.

Llongyfarchiadau i Mr Bruce Edwards, Bryn Cwil, ar ei apwyntiad yn Ustus Heddwch.

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**

**Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn: 871470



Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072

Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy tychan
Dim un dasg rhy fawr

WAVELL ROBERTS

Pen Cigydd Gogledd Cymru


Mae 'Pen Cigydd y Fro' bellach yn 'Ben Cigydd Gogledd Cymru'. Daeth Wavell Roberts o Lanrug i'r brig ym Mhencampwriaethau Gogledd Cymru ym Mae Colwyn, nos Fercher, Chwefror 22. Trefnwyd y cystadlaethau gan Gymdeithas Gwerthwyr Cig Llandudno, Bae Colwyn a'r Rhyl, a daeth Wavell yn gyntaf mewn dwy gystadleuaeth; y tro cyntaf erioed i unrhyw gigydd ennill dwy gystadleuaeth yn yr adran pasteiod. Enillodd y wobwr gyntaf am basai porc a'r wobwr gyntaf am bastai cyw iâr a ham, ac i ychwanegu at ei lwyddiannau daeth yn ail hefyd mewn cystadleuaeth sosej arbennig. Cynigiodd Wavell gyda'i sosej porc a cennin syfi (chives).

Mae Wavell yn gystadleuydd cyson ym Mhencampwriaethau Gogledd Cymru, ond dyma'r tro cyntaf iddo ddod i'r brig, er iddo ennill nifer helaeth o wobrau ail a thrydydd yn y gorffennol. Bydd bellach yn un o gynrychiolwyr Gogledd Cymru yn y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd. Yn anffodus does dim cystadlaethau pasteiod yn y sioe ac felly ar wneud sosej yn unig y bydd yn cystadlu. Pob lwc i Wavell ym Mhencampwriaeth Cymru.

(Parhad o'r Dudalen Flaen)

Daeth siom o'r mwyaf i'm rhan ddau ddiwrnod cyn y fenter oherwydd i mi gael fy nghadw yn Ysbyty Gwynedd am driniaeth dros y penwythnos benodedig. Aeth y gwaith ymlaen fodd

bynag, ac wedi llafur caled, fe godwyd y wagen o'r Cwm a'i chario i Lanberis. Mae hi bellach yn aros i gael ei hatgyweirio gan Mr Stapleton. Mawr obeithiaf y caiff y wagen ei harddangos yn Llanberis cyn bo hir.




Yr olwynion chwe-braich anghyffredin sydd i'r wagen. Sylwch ar y gwaith coed trwchus sy'n cynnal corff y wagen.

Timau traws-gwlad blwyddyn gyntaf Ysgol Brynrefail a fu'n rhedeg yng nghystadlaethau Gwynedd yn ddiweddar. Gweler yr hanes ar y dudalen chwaraeon.



CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Cybydd cyfoethog? (5)
4. Mab i'r un tad (5)
7. Rŵan ac yn y man, daw amser yn ôl (3)
8. Anifail bach sy'n byw yn y coed, yn colli dechrau'r gaeaf ar lafar gwlad (5)
9. Dŵr sy'n symud o dan yr wyneb (5)
10. Wele'r nodiadau.
12. Rheol a wneir gan lywodraeth (4)
15. Anhawster yn dod o ddwyn tegau o ddwrn plentyn (4)
17. Yr hyn a wneir yn barhaol yn 19 (5)
18. Gwledd o gyhuddiad? (4)
20. Mae dyn yn gythral ffôl (4)
23. Rhywbeth? Na (3)
25. O sigo, gochel (5)
26. Dringo o oes gynnar wnaeth dyn (5)
27. Trefniad i gyfarfod (3)
28. Eiddgar neu wresog (5)

29. Diraddio (5)

I LAWR

1. Gwarchodwr lliidiart y Sir? (5)
2. Daw'n ôl o Dŷ Ddewi draw pan fydd wedi gorffen (5)
3. Gerwinder pan fo gawr wedi drysu (4)
4. Mae'r ffwl yn swynio'n grêt (4)
5. 'Mlaen i gario'r llythyr (5)
6. Fydda i byth yn ddrwgl (5)
11. Ers y cyntaf o lonawr (5)
13. Er budd 10 (3)
14. Y cerbyd i fynd yno (3)
15. Y cyntaf o anrhegion y Nadolig (3)
16. Llew yn dod yn ôl i iro (3)
18. Hwn, heb air (5)
19. Cymorth i ddringo i ddosbarth uwch (5)
21. Cronfur (5)
22. Dod ymlaen (5)
23. Disgrifiad o berson sy'n mynd i godi? Na (4)
24. Mis torri yd (4)


ATEBION CROESAIR CHWEFROR

Derbyniwyd atebion cywir i groesair mis Chwefror gan Dilys Pritchard-Jones, Abererch; Nansi Davies, Rhuthun; Dorothy Jones, Llanrug; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Ceridwen Williams, Llanrug; N. Hughes, Cwm-y-glo; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; Catherine Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Ceinwen Williams, Bethel; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Elfed Evans, Llanllechid; Mary Davies, Waunfawr; Nancy Jones, Llanberis; a Mair Foulkes, Penisarwaun.

Cafwyd cliw cryptig i'r gair anghywir, sef OSCAR gan dri o'r cystadleuwyr (bu un ohonynt yn ddigon effro i sylweddoli hynny gan gywiro ei hun yn ddiweddarach).

Aeth y gweddill ar drywydd 'Teilyngdod', 'Llwyddiant', neu i gyfeirio at 'dlysau' fel cliw i ENILLYDD, neu i greu anagram o'r gair; ac o'r dosbarth hwn y daw'r enillydd y mis yma.

Cafwyd LLWY ERNI, LLE? NI WYR, ac I WYR LLÊN. Hoffais yn fawr gynnig E. E. Jones, sef 'Cyflwynir cadair a choron i wŷr llên ein cenedl'. Ond i Ceinwen Williams,



Cefn Gwyn, Bethel, yr aiff y wobwr y mis hwn: 'Ewyn lli'r afon yn troi'n fantas i'r ceufadwyr buddugol.'

Gyrrwch atebion croesair y mis hwn, ynghyd â chliw cryptig i 10 ar draws i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn 30 Mawrth. Pob lwc i chi.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Dyddiadur y Mis

MAWRTH 1995

2. Iau **BETHEL:** Noson Goffi o dan nawdd yr Urdd.
3. Gwener **CAERNARFON:** Eisteddfod Cylch yr Urdd o dan 15 oed.
4. Sadwrn **LLANRUG:** Eisteddfod Cylch yr Urdd o dan 12 oed yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.
6. Llun **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau.
8. Mercher **DEINIOLEN:** Myfyrdod y Grawys yn Eglwys Crist am 7 o'r gloch.
9. Iau **LLANRUG:** Pwyllgor Codi Arian y Ganolfan Newydd yn cyfarfod yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.
- PENISARWAUN:** Myfyrdod y Grawys am 7 o'r gloch yn Eglwys y Santes Helen.
13. Llun **DEINIOLEN:** Cyngor Eglwys. Gwasanaeth o dan ofal y Parchg Geraint Tudur, yn Ebeneser.
16. Iau **LLANRUG:** Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.
20. Llun **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.
- WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Maldwyn Thomas.
27. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas — sgwrs gan Hugh John Hughes.

EBRILL

1. Sadwrn **BETHEL:** Ffair Ffwlbri Ebrill gan Cantorion Elidir yn y Neuadd Goffa am 2 o'r gloch.

RHODDION

£5: Mrs Gaynor Williams, 15 Bryn Tirion, Penisarwaun; Haydn a Vera Hughes, Llanberis; Enid Lloyd Roberts, Bron Eryri, Llanberis; Mr a Mrs Hugh Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis; Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig; Margaret J. Jones, Foel, Dinorwig; Mrs Glenys H.

Williams, Ty'n y Clwt, Deiniolen.

£3: John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Michael ac Anita Butler; Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug; Donald Jones a'r teulu, Deiniolen; Mr a Mrs Gwilym Hughes, Bryn Parc, Brynrefail.

£2: Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan, Llanrug; Wendy a Gwynfor Jones, 9 Rhos Faenol, Deiniolen.

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: Llanberis
870922

Cwmni
TARIAN
Cyf.



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN

6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

CHWARAEON

Noson Wobrwyo Lwyddiannus



Daeth tyrfa sylweddol i Theatr Seilo eto eleni ar gyfer noson wobrwyo chwaraeon yn Arfon. Mae hon yn noson sydd wedi hen ennill ei phlwyf erbyn hyn. Er bod fformat y noson yn debyg — ac unwaith eto rhaid canmol Aled Roberts a Jennie Fletcher am eu llywio rhwydd — mae tueddiadau amlwg yn datblygu. Y brif elfen yw adlewyrchu yr amrediad eang o gampau sy'n cymryd lle. Ydi mae pêl-droed yn dal yn gryf — o ran niferoedd os nad o ran safon — ond hefyd mae campau eraill ar dwf. Yn sicr mae athletau, neu'n benodol rhedeg traws-gwlad ar gynydd. O Ras yr Wyddfa i rasmus bach yn y pentrefi mae yna gryn gystadlu. Yn ddi-os fe fydd y trac yn Nhreborth yn gam sylweddol ymlaen. Aeth tlysau ar y noson i fyd pêl-droed, athletau, hoci, hwylio a rygbi.

Aeth prif dlws y noson i Don Williams, rhedwr o Fynydd Llandegai. Er yn ei 50au mae Don yn gystadleuydd brwd ac yn amlwg o'i araith nerfus ar y diwedd yn gwmniwr da, yn driw i'w gamp a'i glwb ac yn symbylydd i'r aelodau ifanc. Roedd yn enillydd teilwng a phoblogaidd.

Cyflwynwyd tystysgrifau i'r rhai ddaeth â chlod i Arfon drwy eu cyfraniad ar lefel leol a chenedlaethol. Am ei gyfraniad i bêl-droed anrhydeddwyd Meilir Owen, ac o fyd rygbi Dewi Bebb. Y trydydd oedd Sam Roberts, y dringwr profiadol a Warden Parc Cenedlaethol Eryri.

Bob blwyddyn cyflwynir tlws i un o Arfon sydd yn amlygu dewrder tra'n ymwneud â'r campau — yn arbennig oherwydd rhyw anabledd. Yr enillydd eleni oedd Alan Pritchard o Nant Peris. Er y triniaethau ar ei galon ac ysgyfaint mae Alan yn dal i ymdrin â'r campau drwy chwarae pŵl, snwcer ac, wrth gwrs, criced. Eiliad fythgofiadwy i Alan felly oedd cael Tony Lewis, gŵr gwadd y noson (a chyn gapt Morganwg a Lloegr), i gyflwyno'r tlws.

Daeth dau dlws arall i fro'r 'Eco' a hynny yn yr un categori, sef y bachgen mwyaf addawol. Aeth y prif dlws i Alun Vaughan o Lanberis. Mae'r 'Eco' wedi rhoi cryn sylw i Alun dros y misoedd diwethaf ac adlewyrchwyd ei lwyddiant ar y noson. Y rhyfeddod yw ei fod yn ennill pencampwriaethau tra'n cystadlu yn erbyn oeddrannau hyn. Yn sicr, mae gwir dalent yma. Yn ail yn y categori hwn roedd Eifion Jones o Lanrug. Mae Eifion wedi gwneud

cryn farc i wahanol dimau ysgolion ac yn chwarae gêmâu i dimau ieuainc Oldham a Lerpwl. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Rhoddodd Tony Lewis annerchiad hwyliog ac eto gydag ambell i neges bwrpasOol. Seoniodd am dair gêm yn olynol a chwaraeodd un flwyddyn yn Karachi, Lords, a Bethesda! Ei brif thema oedd 'cyfathrebu' â'r angen i hynny fod yn glir ymysg clybiau, unigolion a chyrrff cyhoeddus.

Wrth gloi'r noson cyfeiriodd Aled Roberts at y datblygiadau o ran cyfleusterau oddi mewn i'r fwrdeistref. Yr oeddynt rhoi cyfle i ddenu'r goreuon a gwella perfformiad. Daeth a'r noson i ben gyda her i ni drigolion lleol — fod yr adeg o fuddsoddi mewn cyfleusterau yn dod i ben ac yn awr rhai buddsoddi mewn pobl. Y sawl sy' ganddo glustiau i glywed...

'Riot' Cynta'r Eco!

Tybed mai'r erthygl hon oedd y gyntaf i chwi ei darllen y mis hwn. Os hynny, mae'n debyg mai'r pennawd ymfflamychol a'ch denodd. Yn fwriadol, dewisais y pennawd i geisio dangos y modd y mae'r wasg erbyn hyn yn delio ag agweddau o chwaraeon. Yn amlwg mae'r hyn ddigwyddodd yn Nulyn a Phrestatyn yng nghefn fy meddwl. Ni ddywedaf ddim am Ddylun. Dylai'r lluniau siarad drostynt eu hunain a gall unigolion gysylltu llawer o agweddau — rhai'n boliticaidd mae'n siŵr — gyda'r hyn ddigwyddodd. Yn sicr nid oes gan y bêl-droed fel camp fawr i deimlo'n euog amdano.

Yna Prestatyn. Rwyf wedi siarad efo nifer o rai oedd yn y gêm a rhai a gymerodd ran yn y gêm. Yr oedd cysondeb lled gyflawn yn fersiwn yr unigolion. Yr oedd nifer yn nodi'r hunangyfaddfiad gan y dyfarnwr nad oedd mewn llwyr reolaeth o'r sefyllfa, ac efallai ei fod yn rhannol gyfrifol am yr hyn a ddilynodd. Dangosodd tipyn o ddewrder yn ei 'gyfaddfiad' ond a wnaiff yr awdurdodau gymeryd hyn i ystyriaeth pan ymchwili'r mater? Yn sicr nid oedd Llanberis eisiau i'r gêm orffen yn y fath fodd a hwythau ar y blaen, gan y byddai'r tri phwynt posibl yn werthfawr iawn iddynt.

Ymddengys oddi wrth rai chwaraewyr fod y broblem wedi cychwyn pan ddylid fod wedi danfon

Pytiau wrth Basio

Calondid oedd gweld perfformiad addawol tîm dan 15 oed Ysgolion Cymru yn eu gêm gyfartal yn erbyn Lloegr. Tybed a sylwoch chi ar wyneb cyfarwydd ar y sgrîn yn ystod yr egwyl? Yn rhan o dîm rheoli Cymru roedd Dafydd 'Mona' Owen o Lanrug. Mae perfformiad o'r fath yn codi ac yn sbardun i'r chwaraewyr lleol. Unwaith eto bydd nifer o redwyr o'r ardal yn ffodus i gael eu derbyn i redeg ym Marathon Llundain. Mae dwy elfen bwysig i'r ras enwog hon, sef rhoddi'r gallu i redwyr 'hwyl' a phofiadol i anelu at amser da, hefyd godi arian at elusennau. Bydd Delyth Evans, 27 Y Ddôl, Bethel, yn un o'r rhedwyr. Bydd yn codi arian at Gronfa Haematoleg Gwynedd — achos teilwng iawn. Os hoffech gyfrannu drwy noddi Delyth, neu drefnu noddwyr ar ei chyfer, gellir cysylltu â Delyth ar (01248) 670910.

Cynhaliwyd Pencampwriaeth Gymnasteg Ysgolion Gwynedd yng Nghaergybi yn ddiweddar a daeth cryn lwyddiant i Ysgol Brynrefail, gyda thimau genethod Bl. 7 ac 8 yn y safon canolradd yn cipio'r brif safle. Yn y gystadleuaeth i unigolion cafodd Renee Muelane gyntaf, ac Awen Thomas drydydd yn yr un adran.

Os oes rhedwyr eraill o fro'r Eco eisiau tipyn o 'hysbys' ynglŷn â Marathon Llundain — rhowch ganiad.

Cynhaliwyd traddodiad rhedeg Ysgol Brynrefail yn ddiweddar ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Arfon. Cafwyd perfformiadau clodwiw gan dîm genethod a bechgyn Blwyddyn 7. (Gwelir eu lluniau ar dudalen fewnol.) Enillodd Nicola Jones y ras merched. Yn y ras i fechgyn o dan 17 cafwyd perfformiad da eto gan Llion Pritchard ac un arall o'r 'dewrion' y soniwyd amdanynt yn y brif stori.



Llion yn rhoi 200% fel arfer!

Cwrs Golf Tyddyn Mawr



Yn rhifyn Chwefror o'r 'Eco' adroddwyd yn helaeth am ddatblygiadau'r cwrs golf a bod y syniad o sefydlu Clwb Golf yn y fro wedi ei dderbyn gyda brwdfrydedd.

Bellach mae Pwyllgor Llywio wedi ei ffurfio ac yn ei gyfarfod cyntaf etholwyd swyddogion ac mae dau is-bwyllgor wedi'u sefydlu. Cyfrifoldeb yr is-bwyllgor Cwrs fydd gofalu am gynhalieth y Cwrs a chysidro gwelliannau a mân newidiadau i'r Llwyfannau a'r Lawntiau. Gwaith yr is-bwyllgor Cystadlaethau fydd gwarchod rheolau chwarae golf yn gyffredinol a meithrin yr elfen gystadleuol ymysg yr aelodau a thrwy hynny ddatblygu safon y chwarae.

Bydd yr is-bwyllgor hwn hefyd yn gwarchod buddiannau yr Adran lau ac yn trefnu i'r aelodau iau gael hyfforddiant proffesiynol ar y cychwyn.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd y Pwyllgor Llywio yn trafod gyda Meirion Hughes fanylion y lês ac maent yn ffyddiog y bydd yr agwedd gyfreithiol wedi ei setlo cyn agor y Cwrs. Mater arall pwysig i'r Pwyllgor yw cael cyfansoddiad cadarn i'r Clwb ac hefyd gytuno ar nifer o reolau ac is-reolau yn ymwneud ag: ymddygiad ar y Cwrs; blaenoriaeth; gofalaeth; gwisg; moesau da; ac wrth gwrs Rheolau Lleol pwrpasol ac angenrheidiol ac sy'n arbennig i Gwrs Tyddyn Mawr.

Tua chanol mis Mawrth mae Meirion Hughes yn ffyddiog y bydd y Pwyllgor mewn sefyllfa i anfon manylion llawn am y Clwb Golf i'r rhai hynny sydd wedi dangos diddordeb yn y fenter yn barod.

Os oes unrhyw un arall o ddarllenwyr yr 'Eco' yn dymuno cael y pecyn gwybodaeth, tybed a fyddant cystal a chysylltu â Meirion Hughes yn Tyddyn Mawr. Ffôn: (01286) 674919.